

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a

Chyfathrebu

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd	Steve George
Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Ionawr 2017	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 08.45	SeneddDGCh@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod anffurfiol (08.45 – 09.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017: Sesiwn dystiolaeth

(09:00 – 10:00)

(Tudalennau 1 – 141)

Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg, Coleg Cymraeg Cendelaethol
Fflur Elin, Llywydd, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC)
Cerith Jones, Aelod o Staff UCMC

Egwyl (10:00 – 10:15)

3 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017: Craffu ar waith

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

(10:15 – 10:45)

Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran y Gymraeg
Alan Jones, Pennaeth y Gangen Deddfwriaeth Iaith Gymraeg



**4 Ymchwiliad i Strategaeth y Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru:
Sesiwn dystiolaeth 9**

(10:45 – 12:15)

(Tudalennau 142 – 175)

Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran y Gymraeg
Iwan Evans, Uwch Swyddog Polisi, Is-adran y Gymraeg

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd ar gyfer Eitem 6**

6 Ôl-drafodaeth breifat

(12:15 – 12:30)

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2017 Rhif (Cy.)

Y GYMRAEG

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (“Mesur 2011”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg (“safonau”). Mae'r rhain yn disodli'r system o gynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p. 38).

Mae adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”) i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon (“hysbysiad cydymffurfio”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad 27 o gyrff a restrir yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau fel “cyrff”). Mae'r cyrff hyn yn rhan o'r sector addysg, sef:

- (i) Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig;
- (ii) Sefydliadau Addysg Bellach (Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr, Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig, corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant ac WEA YMCA CC Cymru);
- (iii) Corfforaethau Addysg Bellach (Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Cambria, Coleg y Cymoedd, Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Gwent, Coleg Penybont, Coleg Sir

Benfro, Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp NPTC;

- (iv) Sefydliadau Addysg Uwch (Prifysgol Aberystwyth, y Brifysgol Agored, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant);
- (v) Corfforaethau Addysg Uwch (Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol De Cymru);
- (vi) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn awdurdodi'r Comisiynydd (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a nodir yn rheoliad 3) i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny, mewn perthynas â safonau a bennir gan y Rheoliadau.

Yn unol ag adran 44 o Fesur 2011, caiff y Comisiynydd drwy hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau sy'n benodol gymwys iddo. I adlewyrchu hynny, mae'r safonau a bennir yn y Rheoliadau wedi eu geirio ar ffurf naratif ail berson, hynny yw ar ffurf "rhaid ichi" (ac ystyr "chi" yw'r corff perthnasol ym mhob achos).

Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd a ddarperir gan adran 44 o Fesur 2011, caiff y Comisiynydd (os yw hynny'n rhesymol ac yn gymesur a'i fod yn dymuno gwneud hynny) ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un safon o dan rai amgylchiadau, a safon arall o dan amgylchiadau eraill. Er enghraifft, os yw un safon yn benodol gymwys i gorff, caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon honno o dan rai amgylchiadau, ond nid o dan amgylchiadau eraill, neu ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon honno mewn rhai ardaloedd yn unig. Yn yr un modd os oes dwy neu ragor o safonau yn ymwneud ag ymddygiad penodol (er enghraifft, safonau 8 i 11 mewn perthynas ag ateb galwadau ffôn), caiff y Comisiynydd drwy gyfrwng hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o'r safonau hynny'n unig, neu â safonau gwahanol ar adegau gwahanol, o dan amgylchiadau gwahanol, neu mewn ardaloedd gwahanol, fel sy'n briodol i'r corff. Nid oes rheidrwydd ar y Comisiynydd felly i'w gwneud yn ofynnol i bob corff gydymffurfio â phob safon.

Yn unol ag adran 46 o Fesur 2011, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio a roddir i gorff ddatgan y diwrnod gosod, neu'r diwrnodau gosod; hynny yw, y diwrnod neu'r diwrnodau y daw'n ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon (neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol). Gan ddefnyddio'r hyblygrwydd

a ddarperir gan adran 46, caiff y Comisiynydd osod diwrnod gosod buan i gorff gydymffurfio â safon (cyn belled â bod hynny o leiaf 6 mis ar ôl dyddiad rhoi'r hysbysiad cydymffurfio perthnasol i'r corff), neu osod diwrnod gosod ymhellach i'r dyfodol (er enghraifft mewn perthynas â safonau sy'n fwy heriol).

Pan fo safon a bennir yn y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd ysgrifenedig gael ei arddangos neu ei ddarparu yn Gymraeg, neu i wasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg, nid yw hyn yn golygu bod rhaid arddangos neu ddarparu'r deunydd yn Gymraeg yn unig, na bod rhaid i'r gwasanaeth gael ei ddarparu yn Gymraeg yn unig (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol).

Mae **Atodlen 1** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau cyflenwi gwasanaethau**. Mae adran 28 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon cyflenwi gwasanaethau" yw safon sy'n ymwneud â gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau, ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, pan gyflawnir y gweithgaredd hwnnw. Ystyr "gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau" yw bod person yn cyflenwi gwasanaethau i berson arall, neu yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau i'r person hwnnw neu i drydydd person.

Nid yw'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn gymwys ond i'r graddau bod y gweithgaredd a gyflawnir neu'r gwasanaeth a ddarperir yn ymwneud â'r materion a restrir ym mharagraff 31 o Atodlen 1. Nid yw hyn yn cynnwys cyrsiau (gan gynnwys cyrsiau ar-lein) na deunyddiau cyrsiau.

Mae **Atodlen 2** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau llunio polisi**. Mae adran 29 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon llunio polisi" yw safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried un neu ragor o'r canlynol—

- (a) pa effeithiau, os o gwbl, (a pha un a yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (b) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (c) sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r

Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae **Atodlen 3** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau gweithredu**. Mae adran 30 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon gweithredu" yw safon sy'n ymwneud â swyddogaethau, neu fusnes neu ymgymeriad arall ("gweithgareddau perthnasol") person ("A"), ac y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg—

- (a) gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,
- (b) gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu
- (c) gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.

Mae **Atodlen 4** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau cadw cofnodion**. Mae adran 32 o Fesur 2011 yn darparu mai ystyr "safon cadw cofnodion" yw safon sy'n ymwneud â chadw cofnodion ynghylch safonau penodedig eraill, cofnodion ynghylch cwynion mewn perthynas â chydymffurfedd â safonau penodedig eraill, neu gofnodion ynghylch cwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae **Atodlen 5** i'r Rheoliadau yn pennu **safonau sy'n ymdrin â materion atodol**. Mae'r rhain yn fathau penodol o safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu a safonau cadw cofnodion sy'n ymdrin â'r materion y cyfeirir atynt yn adran 27(4) o Fesur 2011 (sy'n atodol i'r materion hynny yr ymdrinnir â hwy yn Atodlenni 1 i 4).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 150(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2017 Rhif (Cy.)

Y GYMRAEG

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

Gwnaed

Yn dod i rym

7 Chwefror 2017

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1), ac wedi cael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 7 Chwefror 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “aelod o staff” (“*member of staff*”) yw cyflogai i gorff neu unigolyn sy'n gweithio i gorff (a rhaid dehongli “staff” (“*staff*”) yn unol â hynny);

ystyr “corff” (“*body*”) yw person y cyfeirir ato yn rheoliad 3;

ystyr “unigolyn” (“*individual*”) yw aelod o'r cyhoedd neu fyfyrwr.

(5) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae cyfeiriadau at unrhyw weithgaredd sy'n cael ei gyflawni gan gorff, neu at unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan gorff, i'w

(1) 2011 mccc 1.

darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad at y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gyflawni ar ran y corff, neu at y gwasanaeth hwnnw yn cael ei ddarparu ar ran y corff, gan drydydd parti o dan drefniadau a wneir rhwng y trydydd parti a'r corff;

- (b) yn unol â hynny, oni bai bod hysbysiad cydymffurfio yn darparu i'r gwrthwyneb, bydd corff wedi methu â chydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd y mae wedi trefnu iddo gael ei gyflawni, neu wasanaeth y mae wedi trefnu iddo gael ei ddarparu, gan drydydd parti os nad yw'r gweithgaredd hwnnw neu'r gwasanaeth hwnnw wedi ei gyflawni neu ei ddarparu yn unol â'r safon.

(6) Nid oes dim byd yn y Rheoliadau hyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safon mewn cysylltiad â gweithgaredd a gyflawnir ganddo neu wasanaeth a ddarperir ganddo pan fo'n cyflawni'r gweithgaredd hwnnw neu'n darparu'r gwasanaeth hwnnw ar ran trydydd parti o dan drefniadau a wneir rhyngddo ef a'r trydydd parti.

Safonau a bennir

2.—(1) Yn Atodlen 1—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau;
- (b) mae Rhan 2 yn darparu bod—
 - (i) rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol a bennir yn Rhan 1 os yw wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safonau penodol eraill, a
 - (ii) rhaid i hysbysiad cydymffurfio beidio â'i gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol a bennir yn Rhan 1 o dan amgylchiadau penodol os yw wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safonau penodol eraill;
- (c) mae Rhan 3 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.

(2) Yn Atodlen 2—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau llunio polisi;
- (b) mae Rhan 2 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.

(3) Yn Atodlen 3—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau gweithredu;
- (b) mae Rhan 2 yn darparu bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio â safonau penodol a bennir yn

Rhan 1 os yw wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safonau penodol eraill;

- (c) mae Rhan 3 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.

(4) Yn Atodlen 4—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau cadw cofnodion;
- (b) mae Rhan 2 yn diffinio nifer o eiriau ac ymadroddion.

(5) Mae Atodlen 5 yn pennu safonau sy'n ymdrin â materion sy'n atodol i'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y safonau a bennir yn Atodlenni 1 i 4 ac, yn benodol—

- (a) mae Rhan 1 yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymdrin â materion atodol;
- (b) mae Rhan 2 yn pennu safonau llunio polisi sy'n ymdrin â materion atodol;
- (c) mae Rhan 3 yn pennu safonau gweithredu sy'n ymdrin â materion atodol;
- (ch) mae Rhan 4 yn pennu safonau cadw cofnodion sy'n ymdrin â materion atodol;
- (d) mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylchdehongli'r safonau atodol;
- (dd) mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth atodol.

Safonau sy'n benodol gymwys

3. Mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i'r canlynol—

(1) Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a ganlyn a bennir o dan reoliad 2 a'r Atodlenni—

- (a) 94 i 162;
- (b) 169 i 182;

(2) Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr, Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru, Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig, corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant ac WEA YMCA CC Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau a ganlyn a bennir o dan reoliad 2 a'r Atodlenni—

- (a) 1 i 136;
- (b) 138 i 182;

(3) Prifysgol Aberystwyth, y Brifysgol Agored, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau a bennir o dan reoliad 2 a'r Atodlenni;

(4) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a ganlyn a bennir o dan reoliad 2 a'r Atodlenni—

- (a) 1 i 24B;
- (b) 27 i 27D;
- (c) 30 i 59;
- (ch) 61 i 91;
- (d) 94 i 103;
- (dd) 105 i 136;
- (e) 138 i 182.

Enw

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

ATODLEN 1 Rheoliad 2(1)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

RHAN 1

Y SAFONAU

1 Safonau ynghylch gohebiaeth a anfonir gan gorff

(1) Pan fo corff yn ateb gohebiaeth

Safon 1: Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.

(2) Pan fo corff yn gohebu

(a) Pan fo corff yn gohebu ag unigolyn

Safon 2: Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn (“A”) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyhych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi—

- (a) cadw cofnod o ddymuniad A,
- (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac
- (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.

(b) Pan fo corff yn gohebu â mwy nag un aelod o’r un aelwyd

Safon 3: Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy’n aelodau o’r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i’r

unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os—

- (a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;
- (b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.

(c) Pan fo corff yn gohebu â sawl person (er enghraifft, pan fydd yn anfon cylchlythyr, neu'n anfon yr un llythyr at nifer o gartrefi)

Safon 4: Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

(3) Safonau cyffredinol ynghylch gohebu

Safon 5: Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.

Safon 6: Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi,

neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).

Safon 7:

Rhaid ichi ddatgan—

- (a) mewn gohebiaeth, a
- (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,

eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

2

Safonau ynghylch galwadau ffôn i gorff ac oddi wrth gorff

(1) Galwadau ffôn i brif rif ffôn y corff ac i unrhyw linellau cymorth neu ganolfannau galwadau

Safon 8:

Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.

Safon 9:

Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 10:

Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).

Safon 11: Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny—

(a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a

(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Safon 12: Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 13: Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

Safon 14: Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

Safon 15: Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.

Safon 16: Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu

wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.

Safon 17: Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod, yn Gymraeg, i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

(2) Galwadau ffôn i adrannau, ac i aelodau o staff corff

Safon 18: Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).

Safon 19: Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg—

- (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a
- (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Safon 20: Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.

(3) Galwadau ffôn a wneir gan gorff

Safon 21: Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyhych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.

(4) Corff yn delio â galwadau ffôn drwy system wedi ei hawtomeiddio

Safon 22: Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.

3 **Safonau ynghylch cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i fyfyrwyr o fewn carfan benodol**

(1) Cyfarfodydd rhwng corff ac un person gwahoddedig arall

Safon 23: Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; ac os yw P yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid ichi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 24: Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod,

rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

Safon 24A: Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

Safon 24B: Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

(2) Cyfarfodydd gydag un person yn ymwneud â chwynion, achosion disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr

Safon 25: Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, ac

- (a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chwyn am A neu gwyn a wnaed gan A;
- (b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu
- (c) mai diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A,

rhaid ichi—

- (i) gofyn i A a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, a
- (ii) os yw A yn eich

hysbysu ei fod yn
dymuno i'r cyfarfod
gael ei gynnal yn
Gymraeg, cynnal y
cyfarfod yn
Gymraeg (heb
gymorth gwasanaeth
cyfieithu ar y pryd
neu wasanaeth
cyfieithu olynol).

Safon 26:

Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, ac

- (a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chŵyn am A neu gŵyn a wnaed gan A;
- (b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu
- (c) mai diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A,

rhaid ichi—

- (i) gofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a
- (ii) hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.

Safon 26A:

Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod—

- (a) os—
 - (i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chŵyn am yr unigolyn ("A") a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed gan A;
 - (ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu
 - (iii) diben y cyfarfod yw

darparu cymorth
myfyrwyr i A; a

- (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;

os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Safon 26B:

Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod—

- (a) os—
- (i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chwyn am yr unigolyn (“A”) a wahoddwyd neu gwyn a wnaed gan A;
 - (ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu
 - (iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A; a
- (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;

os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

(3) Cyfarfodydd rhwng corff a mwy nag un person gwahoddedig

Safon 27:

Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Safon 27A:

Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod

gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 27B: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 20% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 27C: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 30% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 27CH: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 27D: Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).

(4) Cyfarfodydd gyda mwy nag un person yn ymwneud â chwynion, achosion disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr

Safon 28: Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, ac

- (a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;
- (b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu
- (c) mai diben y cyfarfod hwnnw yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd;

rhaid ichi—

- (i) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg; a
- (ii) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 29:

Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, ac

- (a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;
- (b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu

- (c) mai diben y cyfarfod hwnnw yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd;

rhaid ichi—

- (i) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; a
- (ii) hysbysu'r unigolyn hwnnw (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.

Safon 29A:

Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod—

- (a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod;
- (b) os—
 - (i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;
 - (ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu
 - (iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; ac
- (c) os yw o leiaf un o'r unigolion hynny wedi

eich hysbysu ei fod yn
dymuno defnyddio'r
Gymraeg yn y cyfarfod;

os nad ydych yn cynnal y cyfarfod
yn Gymraeg heb gymorth
gwasanaeth cyfieithu.

Safon 29B:

Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth
cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r
Saesneg ac o'r Saesneg i'r
Gymraeg mewn cyfarfod—

- (a) os ydych wedi gwahodd
mwy nag un person i'r
cyfarfod;
- (b) os—
 - (i) yw'r cyfarfod yn
ymwneud â chŵyn a
wnaed gan un neu
ragor o'r unigolion a
wahoddwyd neu
gŵyn a wnaed am un
neu ragor o'r
unigolion hynny;
 - (ii) yw'r cyfarfod yn
ymwneud ag achos
disgyblu ynghylch
un neu ragor o'r
unigolion a
wahoddwyd; neu
 - (iii) diben y cyfarfod yw
darparu cymorth
myfyrwyr i un neu
ragor o'r unigolion a
wahoddwyd; ac
- (c) os yw o leiaf un o'r
unigolion hynny wedi
eich hysbysu ei fod yn
dymuno defnyddio'r
Gymraeg yn y cyfarfod;

os nad ydych yn cynnal y cyfarfod
yn Gymraeg heb gymorth
gwasanaeth cyfieithu.

4

**Safonau ynghylch cyfarfodydd a
drefnir gan gorff sy'n agored i'r
cyhoedd neu i fyfyrwyr o fewn
carfan benodol**

Safon 30:

Os byddwch yn trefnu cyfarfod
sy'n agored—

- (a) i'r cyhoedd, neu
- (b) myfyrwyr sydd o fewn
carfan benodol,

rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Safon 31: Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored—

- (a) i'r cyhoedd, neu
- (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,

rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.

Safon 32: Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored—

- (a) i'r cyhoedd, neu
- (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,

rhaid ichi—

- (i) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a
- (ii) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 33: Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored—

- (a) i'r cyhoedd, neu
- (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,

rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—

- (i) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (ii) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Safon 34: Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored—

- (a) i'r cyhoedd, neu
- (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,

rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

5 **Safonau ynghylch digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir gan gorff**

Safon 35: Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).

Safon 36: Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir

fath.

Safon 40A: Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus ac y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

9 Seremonïau graddio a gwobrwyo

Safon 41: Os byddwch yn trefnu seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd neu arwyddion a arddangosir gennych yn y lleoliad ac mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a ddarperir am drefn y digwyddiadau yn y seremoni (pa un ai ar ffurf electronig, ysgrifenedig neu lafar).

Safon 42: Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi—

- (a) gofyn i bob person a wahoddwyd a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a
- (b) os yw person (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y seremoni—
 - (i) darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, neu
 - (ii) darparu cyfieithiad Saesneg ysgrifenedig yn y seremoni.

10 Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi dogfennau

Safon 43: Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd neu at ddefnydd myfyrwyr yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn

Gymraeg.

Safon 44: Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg—

- (a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr, sy'n ymwneud â chyfarfodydd Bwrdd neu Gyngor;
- (b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr.

Safon 45: Rhaid i unrhyw drwydded, hawlen neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.

Safon 46: Rhaid i unrhyw lyfryn, prospectws, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg.

Safon 47: Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg—

- (a) polisiau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol;
- (b) canllawiau a chodau ymarfer;
- (c) papurau ymgynghori.

Safon 48: Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 49: Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un pryd.

Safon 50: Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg—

(a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu

(b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.

Safon 51: Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 52: Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.

11 Safonau ynghylch corff yn llunio ac yn cyhoeddi ffurflenni

Safon 53: Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei llunio yn Gymraeg.

Safon 53A: Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 53B: Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn

perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).

Safon 54: Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.

12 **Safonau ynghylch gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff**

(1) Gwefannau a gyhoeddir gan gorff

Safon 55: Rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

Safon 56: Rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun hafan eich gwefan ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich gwefan (neu, pan fo'n berthnasol, bod eich hafan Gymraeg) yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich gwefan.

Safon 57: Pan fyddwch yn cyhoeddi tudalen newydd ar eich gwefan neu'n

diwygio tudalen, rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno.

Safon 58: Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Safon 59: Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

Safon 60: Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar eich mewnwyd i fyfyrwyr, eich gwefannau rhith-ddysgu a'ch gwefannau porth dysgu.

(2) Apiau a gyhoeddir gan gorff

Safon 61: Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.

13 Safonau ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol

Safon 62: Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 63: Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn

Gymraeg (os oes angen ateb).

14 Safon ynghylch peiriannau hunanwasanaeth

Safon 64: Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.

15 Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir gan gorff

Safon 65: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 66: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon 67: Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

16 Safonau ynghylch derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff

Safon 68: Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson

sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.

Safon 69: Os byddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson (“P”) ymlaen llaw a fydd yn golygu y bydd P yn dod i’ch derbynfa, rhaid ichi ofyn i P a yw’n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg (oni bai eich bod yn gwybod eisoes a yw P yn dymuno cael y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg).

Safon 69A: Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg i berson (“P”) os byddwch wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw i P, a—

(a) bod P wedi eich hysbysu ymlaen llaw ei fod yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, neu

(b) eich bod eisoes yn gwybod bod P yn dymuno cael y gwasanaeth yn Gymraeg.

Safon 70: Os nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael gennych, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg ar gael dros ffôn yn eich derbynfa.

Safon 71: Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy’n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg yn y dderbynfa.

Safon 72: Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy’n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy’n cyfleu hynny.

17 **Safonau ynghylch corff yn gwneud hysbysïadau**

Safon 73: Rhaid i unrhyw hysbysïad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn

Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

Safon 74: Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

18 Safonau ynghylch corff yn dyfarnu grantiau neu'n darparu cymorth ariannol

Safon 75: Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.

Safon 76: Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Safon 76A: Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).

Safon 77: Os byddwch yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnwyl y cyfweliad yn Gymraeg (heb

gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 78: Os byddwch yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi—

(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a

(b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 79: Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

19 Safonau ynghylch corff yn dyfarnu contractau

Safon 80: Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

Safon 81: Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Safon 81A: Rhaid ichi beidio â thrin tendr am

gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).

Safon 82: Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 83: Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi—

(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, a

(b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 84: Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.

20 **Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff**

Safon 85: Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir

gennyh, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safon 86: Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

21 Safon ynghylch hunaniaeth gorfforaethol corff

Safon 87: Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

22 Safonau ynghylch cyfleoedd dysgu a gynnigir gan gorff

Safon 88: Os byddwch yn cynnig cyfle dysgu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

Safon 89: Os byddwch yn datblygu cyfle dysgu sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cyfle hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.

23 Safonau ynghylch cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg

Safon 90: Rhaid ichi hysbysu eich myfyrwyr y caniateir i unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi fel rhan o asesiad neu arholiad gael ei gyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd gwaith a gyflwynir ichi yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw.

Safon 90A: Rhaid ichi beidio â thrin unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir

ichi yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw.

24 Safon ynghylch systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Safon 91: Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

25 Safonau ynghylch llety myfyrwyr

Safon 92: Pan fydd myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr yn gwneud cais ichi am lety preswyl, rhaid ichi ganiatáu i'r myfyrwyr hynny fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a gaiff ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Safon 92A: Rhaid ichi hybu ymhlith eich myfyrwyr a'ch darpar fyfyrwyr y gallu iddynt fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a gaiff ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

26 Safon ynghylch dyrannu tiwtor personol

Safon 93: Os ydych yn dyrannu tiwtor personol i fyfyrwr ("A") rhaid ichi—

- (a) gofyn i A a yw'n dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, a
- (b) os yw A yn eich hysbysu ei fod yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg i A.

RHAN 2

SAFONAU SY’N YMWNEUD Â SAFONAU ERAILL – AMODAU ARBENNIG

- 27 Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o’r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 1, rhaid i’r hysbysiad cydymffurfio hwnnw hefyd ei gwneud yn ofynnol i’r corff hwnnw gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y gwêl Comisiynydd y Gymraeg yn briodol) â’r safon neu’r safonau a restrir ar y rhes honno yng ngholofn 2 (neu ag un neu ragor o’r safonau hynny pan nodir hynny).

TABL 1

	Colofn 1	Colofn 2
<i>Rhes</i>	<i>Prif safon</i>	<i>Safon ddibynnol</i>
	Ateb gohebiaeth	
(1)	Safon 1	Safon 7
	Gohebu ag aelodau o’r un aelwyd	
(2)	Safon 3	Safon 6
	Gohebu â sawl person	
(3)	Safon 4	Safon 6 Safon 7
	Safonau cyffredinol ynghylch gohebu	
(4)	Safon 5	Safon 6 Safon 7
	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gohebu yn Gymraeg	
(5)	Safon 7	Safon 1
	Cael galwadau ffôn	

(6)	Safon 9	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 10 Safon 11
(7)	Cael galwadau ffôn Safon 10 neu 11	Safon 9 Safon 14
(8)	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau ffôn yn Gymraeg Safon 14	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 10 Safon 11 a hefyd Safon 16, a Safon 17
(9)	Cyfarfodydd ag un person Safon 24	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 24A Safon 24B
(10)	Cyfarfodydd ag un person Safon 24A neu 24B	Safon 24
(11)	Cyfarfodydd ag un person Safon 26	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 26A Safon 26B
(12)	Cyfarfodydd ag un person Safon 26A neu 26B	Safon 26
(13)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 27	Un neu ragor o'r canlynol:

		Safon 27A Safon 27B Safon 27C a hefyd un neu ragor o'r canlynol: Safon 27CH Safon 27D
(14)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 27A, 27B, 27C, 27CH neu 27D	Safon 27
(15)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 29	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 29A Safon 29B
(16)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 29A neu 29B	Safon 29
(17)	Cyfarfodydd cyhoeddus Safon 30	Safon 33
(18)	Cyfarfodydd cyhoeddus Safon 33	Safon 30
(19)	Darlithoedd cyhoeddus Safon 40	Safon 40A
(20)	Darlithoedd cyhoeddus Safon 40A	Safon 40
(21)	Dogfennau Safon 43, 44, 45, 46, 47, 48 neu 50	Safon 51 Safon 52
(22)	Ffurflenni Safon 53	Safon 53A

		Safon 53B
(23)	Gwefannau Safon 55, 56 neu 57	Safon 58
(24)	Arwyddion Safon 65 neu 66	Safon 67
(25)	Derbynfa Safon 68	Safon 71 Safon 72
(26)	Derbynfa Safon 69	Safon 69A
(27)	Derbynfa Safon 70	Safon 71
(28)	Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg mewn derbynfa Safon 71	Un neu ragor o'r canlynol: Safon 68 Safon 70
(29)	Grantiau a chymorth ariannol Safon 76	Safon 76A Safon 79
(30)	Grantiau a chymorth ariannol Safon 77 neu 78	Safon 76 Safon 76A
(31)	Contractau Safon 81	Safon 81A Safon 84
(32)	Contractau Safon 82 neu 83	Safon 81 Safon 81A
	Gwaith ysgrifenedig	

	yn Gymraeg	
(33)	Safon 90	Safon 90A
	Gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg	
(34)	Safon 90A	Safon 90
	Llety myfyrwyr	
(35)	Safon 92	Safon 92A
	Llety myfyrwyr	
(36)	Safon 92A	Safon 92

28

(1) Mae paragraff 28(2) yn gymwys os yw hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 2 ac ag un neu ragor o'r safonau a restrir ar yr un rhes yng ngholofn 2.

(2) Os yw'r hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon a restrir yng ngholofn 2 mewn cysylltiad â chyfarfod (neu mewn cysylltiad â chyfarfod o fath penodol), rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio beidio â'i gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â safon a restrir ar yr un rhes yng ngholofn 1 mewn cysylltiad â'r cyfarfod hwnnw (neu mewn cysylltiad â chyfarfod o'r math hwnnw).

TABL 2

<i>Rhes</i>	Colofn 1	Colofn 2
	Cyfarfodydd ag un person	Cyfarfodydd ag un person ynghylch cwynion, achosion disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr

(1)	Safon 23, 24, 24A neu 24B	Safon 25, 26, 26A neu 26B
(2)	Cyfarfodydd â mwy nag un person Safon 27, 27A, 27B, 27C, 27CH neu 27D	Cyfarfodydd â mwy nag un person ynghylch cwynion, achosion disgyblu neu gymorth i fyfyrwyr Safon 28, 29, 29A neu 29B

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

- 29** Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.
- 30** Nid yw'r safonau a bennir ond yn gymwys i'r graddau y mae corff yn—
- (a) cyflenwi gwasanaethau i berson, neu
 - (b) yn delio ag unrhyw berson arall mewn cysylltiad â chyflenwi gwasanaethau—
 - (i) i'r person arall hwnnw, neu
 - (ii) i drydydd person.
- 31** Nid yw'r safonau ond yn gymwys i'r graddau y mae'r gweithgaredd a gyflawnir neu'r gwasanaeth a ddarperir yn ymwneud â'r canlynol—
- (a) derbyn a dethol myfyrwyr;
 - (b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff;
 - (c) lles myfyrwyr;
 - (ch) cwynion;
 - (d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr;
 - (dd) gwasanaeth gyrfaoedd;
 - (e) mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu;
 - (f) seremonïau graddio a gwobrwyo;
 - (ff) asesu neu arholi myfyriwr;
 - (g) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol;
 - (ng) darlithoedd cyhoeddus;
 - (h) cyfleoedd dysgu(1);
 - (i) dyrannu tiwtor personol(2);

(1) Gweler paragraff 63.

(2) Gweler paragraff 66.

- (j) llety myfyrwyr,
llyfrgelloedd a
chanolfannau celfyddydau;
- (l) galwadau i brif rif (neu
rifau) ffôn, rhifau llinell
gymorth, rhifau canolfan
alwadau a systemau ffôn
wedi eu hawtomeiddio;
- (ll) arwyddion ar adeiladau'r
corff.

32 Nid yw'n ofynnol i gorff lunio, arddangos nac anfon deunydd yn Gymraeg i'r graddau y mae deddfiad arall wedi pennu geiriad dogfen, arwydd neu ffurflen a fyddai'n groes i'r gofyniad hwnnw.

33 At ddibenion y safonau—

- (a) nid yw gofyniad i lunio unrhyw ddeunydd ysgrifenedig i'w anfon, i'w gyhoeddi, i'w arddangos, i'w roi ar gael neu i'w ddyroddi yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid llunio'r deunydd, ei anfon, ei gyhoeddi, ei arddangos, ei roi ar gael neu ei ddyroddi, nac yn golygu y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni bai bod hynny'n cael ei nodi'n benodol yn y safon);
- (b) nid yw gofyniad bod gwasanaeth i gael ei ddarparu yn Gymraeg yn golygu mai dim ond yn Gymraeg y dylid darparu'r gwasanaeth hwnnw (oni bai bod hynny'n cael ei ddatgan yn benodol yn y safon).

34 (1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio ("testun A").

(2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3).

(3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol—

- (a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg;
- (b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau;
- (c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad;
- (ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf 2006; neu
- (d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.

(4) Yn y paragraff hwn—

- (a) ystyr “Cynllun Iaith Gymraeg” yw cynllun iaith Gymraeg a lunnir yn unol â Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(1);
- (b) ystyr “dyletswydd i gydymffurfio â safonau” yw dyletswydd i gydymffurfio â safon o dan adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- (c) ystyr “Deddf 2006” yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006(2);
- (ch) ystyr “Rheolau Sefydlog y Cynulliad” yw rheolau sefydlog a wnaed o dan adran 31 o Ddeddf 2006;
- (d) ystyr “Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad” yw'r Cynllun a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd o dan baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

35

Nid yw'n ofynnol i gorff gydymffurfio â'r safonau hyn mewn perthynas â deunydd a gyhoeddir mewn cyfnodolion neu lyfrau.

36

At ddibenion safonau 2, 3 ac 21,

(1) 1993 p. 38.
(2) 2006 p. 32.

mae corff yn gohebu ag unigolyn neu'n ffonio unigolyn am y tro cyntaf pan fydd yn gohebu neu'n ffonio'r person am y tro cyntaf ar ôl y dyddiad y mae hysbysiad cydymffurfio wedi ei gwneud yn ofynnol i'r corff gydymffurfio â'r safon.

- 37** At ddibenion safonau 18 i 20 (galwadau ffôn) ystyr “adran” yw adran sy'n delio'n gyfan gwbl neu'n bennaf â'r materion a restrir ym mharagraff 31(a) i (l).
- 38** Yn safon 22, ystyr system ffôn “wedi ei hawtomeiddio” yw system sy'n ateb galwadau ffôn ac yn arwain personau drwy drefn benodedig gyda neges wedi ei recordio sy'n gofyn, er enghraifft, i berson bwysu bysellau gwahanol er mwyn dewis opsiynau gwahanol.
- 39** At ddibenion safonau 25 i 26B ac 28 i 29B (cyfarfodydd ynghylch cymorth i fyfyrwyr), ystyr darparu ‘cymorth myfyrwyr’ yw darparu gwasanaeth cwnsela neu gymorth mewn perthynas â materion iechyd meddwl.
- 40** Nid yw safonau 23 i 29B (cyfarfodydd) yn gymwys i archwiliadau meddygol.
- 41** At ddibenion safonau 30 i 34 (cyfarfodydd cyhoeddus) ystyr “carfan” yw grŵp o fyfyrwyr sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion ystadegol neu ddemograffig (er enghraifft, myfyrwyr a aned mewn blwyddyn benodol, pob myfyriwr neu bob myfyriwr trydedd flwyddyn sy'n astudio daearyddiaeth).
- 42** Nid yw safon 36 (digwyddiadau cyhoeddus) yn gymwys i—
- (a) perfformiadau o gerddoriaeth;
 - (b) cynyrchiadau artistig neu ddramatig;
 - (c) seminarau neu gyflwyniadau llafar sy'n

ymwneud â'r perfformiad
neu'r cynhyrchiad;

(ch) unrhyw recordiad o'r
perfformiad, y
cynhyrchiad, y seminar
neu'r cyflwyniad llafar.

- 43** Nid yw safonau 36 ac 91 yn gymwys pan wneir y neges y byddwch yn ei chyhoeddi dros system annerch gyhoeddus yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng.
- 44** Nid yw safonau 30 i 34 (cyfarfodydd cyhoeddus) a 35 ac 36 (digwyddiadau cyhoeddus) yn gymwys i ddarlithoedd cyhoeddus na seremonïau graddio (gweler safonau 40 i 42).
- 45** Nid yw safonau 38 a 39 (arddangos deunydd) yn gymwys i seremonïau graddio (gweler safonau 41 i 42).
- 46** Pan fo safon yn cyfeirio at ddeunydd sydd i'w lunio yn Gymraeg (ac eithrio safonau 41 (seremonïau graddio), 55 i 61 (gwefannau ac apiau), 62 a 63 (cyfryngau cymdeithasol), 80 (gwahoddiad i dendro) a 90 (cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg)), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—
- (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
 - (b) maint y deunydd;
 - (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
 - (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei

arddangos;

- (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd.

47

At ddibenion safon 41 (seremonïau graddio a gwobrwyo), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
- (b) maint y deunydd;
- (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd

ond ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg drwy ddarparu'r wybodaeth mewn fformat ysgrifenedig neu electronig yn Gymraeg pan ddarperir yr wybodaeth ar lafar yn Saesneg.

48

At ddibenion safonau 43, 44, 47, 50 a 53, nid yw'r cyfeiriadau at ddogfennau neu ddeunydd arall sydd ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr, neu sy'n cael eu llunio at ddefnydd y cyhoedd neu at ddefnydd myfyrwyr, yn cynnwys dogfennau neu ddeunyddiau nad ydynt ond ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr yn rhinwedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(1).

49

(1) Nid yw safonau 53, 53A a 53B yn gymwys i'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (3).

(1) 2000 p. 36.

(2) At ddibenion safon 2, nid yw'n ofynnol i gorff anfon fersiwn Gymraeg o'r ffurflenni a restrir yn is-baragraff (3).

(3) Y ffurflenni yw—

- (a) ffurflenni a ddefnyddir gan gorff i recriwtio cyflogeion (gweler safonau 146A, 147 a 148 mewn perthynas â recriwtio);
- (b) ffurflenni a ddefnyddir wrth wneud cais am grant neu gymorth ariannol gan gorff (gweler safonau 75 i 79 mewn perthynas â cheisiadau am grantiau a chymorth ariannol);
- (c) ffurflenni a ddefnyddir pan gyflwynir tendr i gontractio gyda chorff (gweler safonau 80 i 84 mewn perthynas â thendro am gontract).

50 Nid yw safonau 43, 48, 50, 51 a 52 yn gymwys i ddeddfiad a wneir gan gorff neu i ddeddfiad drafft a lunnir gan gorff.

51 Nid yw safonau 43, 46, 47 a 50 yn gymwys i unrhyw ddeunydd hysbysebu a gynhwysir mewn dogfen, llyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn.

52 Nid yw safonau 55 i 59 (gwefannau) yn gymwys i—

- (a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar wefan, deunydd hysbysebu ar wefan, na chlipiau fideo a sain ar wefan (gweler safonau 43 i 52 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau, a safon 37 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff);
- (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau (ac eithrio'r corff) ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar wefan corff (er

enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau, neu ar fforwm drafod).

53 At ddibenion safonau 55 i 59 (gwefannau), mae “gwefan” yn cynnwys mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu.

54 (1) At ddibenion safon 61, ystyr “ap” yw cymhwysiad meddalwedd sydd wedi ei gynllunio i gyflawni tasg benodol ar ddyfais electronig.

(2) Nid yw safon 61 yn gymwys i unrhyw ddeunydd hysbysebu ar ap (gweler safon 37 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff).

55 At ddibenion safonau 55 i 60 (gwefannau), safon 61 (apiau) a safonau 62 a 63 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

(a) golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu

(b) pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol;

ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio.

56 (1) Nid yw safonau 1 i 7 (gohebu) yn gymwys i ohebiaeth a anfonir drwy'r cyfryngau cymdeithasol (gweler safonau 62 a 63 mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol).

(2) Nid yw safonau 55 i 59 (gwefannau) a safon 61 (apiau) yn

gymwys i'r cyfryngau cymdeithasol (gweler safonau 62 a 63 mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol).

57 Nid yw safonau 62 a 63 (cyfryngau cymdeithasol) yn gymwys i—

- (a) dogfennau y darperir dolen iddynt drwy'r cyfryngau cymdeithasol, nac i glipiau fideo a sain a ddarperir drwy'r cyfryngau cymdeithasol (gweler safonau 43 i 52 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau, a safon 37 mewn perthynas â deunydd hysbysebu a lunnir gan gorff);
- (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau (ac eithrio'r corff) ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau).

58 At ddibenion safon 64 (peiriannau hunanwasanaeth), mae cyfeiriad at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar sgrin yr un pryd â deunydd Saesneg.

59 At ddibenion safonau 68 i 72 (derbyn ymwelwyr)—

- (a) ystyr “derbynfa” yw ardal yn swyddfeydd a lleoliadau gwasanaeth corff lle y mae staff ar gael at ddiben croesawu personau;
- (b) ystyr “gwasanaeth derbynfa” yw gwasanaeth croesawu personau i swyddfeydd neu leoliadau gwasanaeth y corff gan staff sydd ar gael at y diben hwnnw;

- (c) mae “lleoliadau gwasanaeth” yn cynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau celfyddydau, canolfannau cyngor a chanolfannau galw heibio.

60 At ddibenion safonau 7, 73 a 74 ystyr “hysbysiad” yw unrhyw hysbysiad y mae corff yn ei gyhoeddi, ond nid yw’n cynnwys hysbysiadau a ragnodir gan ddeddfiad.

61 At ddibenion safon 80 (gwahoddiad i dendro)—

(1) Nid yw’n ofynnol i gorff gyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

(2) Mae cyfeiriad at beidio â thrin fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) golwg y deunydd (er enghraifft mewn perthynas â lliw neu ffont unrhyw destun);
- (b) maint y deunydd;
- (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- (d) fformat cyhoeddi unrhyw ddeunydd;

ond ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg drwy beidio â chyhoeddi gwahoddiad i dendro yn Gymraeg yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd.

62 (1) At ddibenion safon 87, mae’r cyfeiriad at gorff yn llunio neu’n cyflwyno ei “hunaniaeth gorfforaethol” yn cynnwys, ymysg pethau eraill, y ffordd y mae corff yn ei gyflwyno ei hun drwy ddatganiadau gweledol, yr enw

neu'r enwau a ddefnyddir gan gorff, a'r brandio a'r sloganau a ddefnyddir gan gorff (er enghraifft, brandio a sloganau a argraffir ar ei bapur ysgrifennu).

(2) Nid yw safon 87 yn berthnasol i'r graddau y mae deddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ddefnyddio enw cyfreithiol.

63

At ddibenion safonau 88 a 89 (cyfleoedd dysgu) a pharagraff 31, ystyr "cyfleoedd dysgu" yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn flas neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei ddarparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys—

- (a) unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn flas na darpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei ddarparu fel rhan o gwrs; neu
- (b) seminarau na chyflwyniadau llafar sy'n ymwneud â pherfformiad neu gynhyrchiad.

64

Nid yw safonau 90 a 90A (cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg) yn gymwys pan fydd y corff yn asesu hyfedredd myfyriwr mewn iaith ac eithrio'r Gymraeg.

65

At ddibenion safonau 90 a 90A (cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg), mae cyfeiriad at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill, yr amserlen ar gyfer hysbysu personau am ganlyniad yr asesiad neu'r arholiad; ond ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg—

- (a) drwy gael cyfieithiad o'r gwaith hwnnw er mwyn iddo gael ei asesu, neu
- (b) drwy beidio â chyfieithu unrhyw sylwadau ar y gwaith a gyfieithwyd.

66

At ddibenion safon 93 (dyrannu

tiwtor personol) a pharagraff 31—

- (a) “tiwtor personol” yw aelod o staff a ddyrennir i fyfyrwr (“A”) a’i brif rôl fel tiwtor personol yw rhoi cymorth i A o ran ei ddysgu neu o ran unrhyw faterion eraill;
- (b) nid yw dyrannu tiwtor personol i A yn cynnwys darparu tiwtor academaidd ar gyfer A;
- (c) “tiwtor academaidd” yw aelod o staff a ddarperir i A a’i rôl fel tiwtor academaidd yw—
 - (i) traddodi darlith neu addysgu cwrs, neu
 - (ii) hwyluso tiwtorialau, gweithdai neu gymorth ymarferol i’r rhaglen ddysgu.

67

At ddibenion y safonau, ystyr “deddfiad” yw deddfiad (pa bryd bynnag y cafodd ei ddeddfu neu ei wneud) sydd wedi ei gynnwys mewn unrhyw un o’r canlynol, neu mewn offeryn a wneir o dan un o’r canlynol—

- (a) Deddf Seneddol; neu
- (b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Safonau Llunio Polisi

RHAN 1

Y SAFONAU

1 Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg

Safon 94: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n positif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 95: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 96: Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 97:

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n positif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 98:

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 99:

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 100:

Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud

yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol—

- (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n positif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r

Gymraeg, a

- (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 101:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 102:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 103:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—

- (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 104:

Pan fyddwch yn datblygu neu'n addasu cwrs (neu unrhyw gydran o

gwrs), rhaid ichi ystyried—

- (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n positif neu'n andwyol), y byddai'r cwrs hwnnw yn eu cael ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (b) sut y byddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- (c) sut na fyddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—
 - (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

2

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, i'r graddau y mae'r penderfyniad yn ymwneud â'r canlynol—

- (a) derbyn a dethol myfyrwyr;
- (b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff;
- (c) lles myfyrwyr;
- (ch) cwynion;

- (d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr;
- (dd) gwasanaeth gyrfaoedd;
- (e) mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu;
- (f) seremonïau graddio a gwobrwyo;
- (ff) asesu neu arholi myfyriwr;
- (g) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol;
- (ng) darlithoedd cyhoeddus;
- (h) cyfleoedd dysgu;
- (i) cyrsiau;
- (j) arwyddion ar adeiladau'r corff;
- (l) llety myfywrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau;
- (ll) dyrannu tiwtor personol;
- (m) galwadau i brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell gymorth, rhifau canolfan alwadau a systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio;

ac mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—

- (i) cynnwys deddfwriaeth;
- (ii) arfer pwerau statudol;
- (iii) cynnwys datganiadau polisi;
- (iv) strategaethau neu gynlluniau strategol;
- (v) strwythurau mewnol;
- (vi) lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau;
- (vii) recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr.

3

Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un ai ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

- 4 Yn yr Atodlen hon mae i “cyfleoedd dysgu” yr un ystyr ag ym mharagraff 63 o Atodlen 1.
- 5 Yn yr Atodlen hon, mae i “dyrannu tiwtor personol” yr un ystyr ag ym mharagraff 66 o Atodlen 1.

ATODLEN 3 Rheoliad 2(3)

Safonau gweithredu

RHAN 1

Y SAFONAU

1 **Safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff**

Safon 105: Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.

Safon 106: Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.

Safon 107: Rhaid ichi—

- (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a
- (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 108: Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 109: Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw

ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 110: Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 111: Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi—

- (a) gwyliau,
- (b) absenoldebau o'r gwaith, ac
- (c) oriau gwaith hyblyg,

yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.

Safon 112: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 113: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 114: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 115: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 116: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 117: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

Safon 118: Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.

2 Safonau ynghylch cwynion a wneir gan aelod o staff corff

Safon 119: Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff—

- (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a
- (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.

Safon 119A: Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff—

- (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a
- (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg;

a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.

Safon 120: Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi—

- (a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a
- (b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 121: Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi—

- (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;
- (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth

cyfieithu o'r Gymraeg i'r
Saesneg at y diben hwnnw
os yw'n ofynnol;

ac os yw'r aelod o staff yn
dymuno defnyddio'r Gymraeg,
rhaid ichi ddarparu gwasanaeth
cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r
Saesneg yn y cyfarfod (oni bai
eich bod yn cynnal y cyfarfod yn
Gymraeg heb wasanaeth
cyfieithu).

Safon 122:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i
aelod o staff beth yw'ch
penderfyniad mewn perthynas â
chwyn a wneir gan yr aelod
hwnnw, neu mewn perthynas â
chwyn a wneir amdano ef, rhaid
ichi wneud hynny yn Gymraeg os
yw'r aelod hwnnw o staff—

- (a) wedi gwneud y gwyn yn
Gymraeg,
- (b) wedi ymateb yn Gymraeg i
gwyn amdano ef,
- (c) wedi gofyn bod cyfarfod
ynghlŷn â'r gwyn yn cael ei
gynnal yn Gymraeg, neu
- (ch) wedi gofyn am gael
defnyddio'r Gymraeg
mewn cyfarfod ynghlŷn â'r
gwyn.

3

**Safonau ynghylch corff yn
disgyblu staff**

Safon 123:

Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o
staff ymateb yn Gymraeg i
honiadau a wneir yn ei erbyn mewn
unrhyw broses ddisgyblu fewnol.

Safon 123A:

Rhaid ichi—

- (a) datgan mewn unrhyw
ddogfen sydd gennych
sy'n nodi eich trefniadau
ar gyfer disgyblu staff y
caiff unrhyw aelod o staff
ymateb yn Gymraeg i
unrhyw honiadau a wneir
yn ei erbyn, a
- (b) os byddwch yn dechrau
gweithdrefn ddisgyblu
mewn perthynas ag aelod
o staff, rhoi gwybod i'r
aelod hwnnw o staff am yr

hawl honno.

Safon 124:

Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi—

- (a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a
- (b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 125:

Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi—

- (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a
- (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol;

ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 126:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff—

- (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,
- (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu
- (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.

4 **Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd**

Safon 127: Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Safon 128: Rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.

Safon 129: Rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.

Safon 130: Bob tro y byddwch yn cyhoeddi tudalen newydd neu'n diwygio tudalen ar eich mewnrwyd, rhaid ichi sicrhau—

- (a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,
- (b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac
- (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â thestun y dudalen honno.

Safon 131: Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Safon 132: Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

Safon 133: Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.

5 **Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu**

Safon 134: Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.

Safon 135: Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg—

- (a) recriwtio a chyfweld;
- (b) rheoli perfformiad;
- (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- (ch) ymsefydlu;
- (d) delio â'r cyhoedd; ac
- (dd) iechyd a diogelwch.

Safon 136: Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn—

- (a) cyfarfodydd;
- (b) cyfweiliadau; ac
- (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

Safon 137: Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant i staff sy'n darparu cyngor gyrfaoedd ar werth sgiliau yn y Gymraeg yn y sector cyflogaeth.

Safon 138: Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith—

- (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a
- (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Safon 139: Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Safon 140: Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—

- (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);
- (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;
- (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Safon 141: Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Safon 142: Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.

Safon 143: Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar

gael i ateb negeseuon ebost.

Safon 144: Rhaid ichi roi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny.

Safon 144A: Rhaid ichi hybu ymhlith aelodau'r staff wisgo bathodyn sy'n cyfleu bod aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg.

6 Safonau ynghylch recriwtio ac apwyntio

Safon 145: Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu
- (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Safon 145A: Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—

- (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a
- (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.

Safon 146: Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Safon 146A: Os byddwch yn cyhoeddi—

- (a) ffurflenni cais am swyddi;

(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;

(c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;

(ch) swydd-ddisgrifiadau;

rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.

Safon 146B: Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).

Safon 147: Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweiliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).

Safon 148: Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi—

(a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, a

(b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen;

ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar

y pryd yn y cyfweliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).

Safon 149: Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.

7 Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff

Safon 150: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 151: Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon 152: Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

8 Safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff

Safon 153: Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn

Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

RHAN 2

SAFONAU SY'N DDIBYNNOL AR SAFONAU ERAILL – AMODAU ARBENNIG

- 9 Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o'r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 1, rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio hwnnw hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y gwêl Comisiynydd y Gymraeg yn briodol) â'r safon neu'r safonau a restrir ar y rhes honno yng ngholofn 2.

TABL 1

	Colofn 1	Colofn 2
<i>Rhes</i>	<i>Prif safon</i>	<i>Safon ddibynnol</i>
	Gweithdrefnau cwyno	
(1)	Safon 119	Safon 119A
	Gweithdrefnau cwyno	
(2)	Safon 119A	Safon 119
	Disgyblu staff	
(3)	Safon 123	Safon 123A
	Disgyblu staff	
(4)	Safon 123A	Safon 123
	Y fewnrwyd	
(5)	Safon 128, 129 neu 130	Safon 131
	Codi ymwybyddiaeth o'r bathodyn Cymraeg	
(6)	Safon 144	Safon 144A
	Codi ymwybyddiaeth o'r bathodyn Cymraeg	
(7)	Safon 144A	Safon 144
	Recriwtio ac apwyntio	
(8)	Safon 145	Safon 145A
	Recriwtio	
(9)	Safon 146	Safon 146A Safon 146B Safon 149
	Arwyddion mewnol	
(10)	Safon 150	Safon 152

RHAN 3

DEHONGLI'R SAFONAU

10 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a ganlyn.

11 (1) Nid yw'n ofynnol i gorff gyfieithu i'r Gymraeg unrhyw destun nad yw wedi ei lunio ("testun A").

(2) Ni fydd corff yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol os nad yw'n cyfieithu testun A i'r Gymraeg ond gweler is-baragraff (3).

(3) Rhaid i gorff ddefnyddio'r fersiwn Gymraeg o destun A os yw person arall wedi llunio testun A yn Gymraeg yn unol—

- (a) â'i Gynllun Iaith Gymraeg;
- (b) â dyletswydd i gydymffurfio â safonau;
- (c) â Rheolau Sefydlog y Cynulliad;
- (ch) ag adran 35(1C) o Ddeddf 2006; neu
- (d) â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad.

(4) Yn y paragraff hwn—

- (a) ystyr "Cynllun Iaith Gymraeg" yw cynllun iaith Gymraeg a lunnir yn unol â Rhan 2 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993;
- (b) ystyr "dyletswydd i gydymffurfio â safonau" yw dyletswydd i gydymffurfio â safon o dan adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- (c) ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- (ch) ystyr "Rheolau Sefydlog y Cynulliad" yw rheolau sefydlog a wnaed o dan

adran 31 o Ddeddf 2006;

- (d) ystyr “Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad” yw’r Cynllun a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd o dan baragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006.

12

At ddibenion safonau 128, 129 a 130 (mewnwyd corff), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw, maint, ffont, a fformat unrhyw destun);
- (b) pryd y caiff y deunydd ei gyhoeddi ar y fewnwyd;

ond nid yw’n golygu bod yn rhaid i’r deunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â’r deunydd Saesneg, nac ar dudalen a fydd yn debygol o agor cyn y fersiwn Saesneg gyfatebol o’r dudalen.

13

At ddibenion safonau 146A (recriwtio) a 150 (arwyddion mewmol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg yn cynnwys, ymysg pethau eraill (ac yn ogystal â materion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—

- (a) golwg y deunydd (er enghraifft o ran lliw neu ffont unrhyw destun);
- (b) maint y deunydd;
- (c) lleoliad ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus;
- (ch) pryd a sut y caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- (d) fformat cyhoeddi’r

deunydd.

- 14** At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i gyhoeddi, darparu neu arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid cyhoeddi, darparu neu arddangos deunydd yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon).
- 15** Nid yw safonau 128 i 131 (y fewnrwyd) yn gymwys i—
- (a) dogfennau y darperir dolen iddynt ar y fewnrwyd, deunydd hysbysebu ar y fewnrwyd, na chlipiau fideo a sain ar y fewnrwyd (gweler safonau 112 i 118 am ddarpariaeth benodol mewn perthynas â dogfennau);
 - (b) gwybodaeth a gyflwynir gan bersonau ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar fewnrwyd corff (er enghraifft, ar adran ar gyfer sylwadau neu ar fforwm trafod).
- 16** At ddibenion safonau 145 a 145A yn unig—
- (a) mae “swydd” yn cynnwys penodiad cyhoeddus;
 - (b) ystyr “penodiad cyhoeddus” yw unrhyw benodiad i gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus.
- 17** Nid yw safon 153 yn gymwys pan wneir y neges y byddwch yn ei chyhoeddi dros system annerch gyhoeddus yn ystod argyfwng neu ymarfer argyfwng.

ATODLEN 4 Rheoliad 2(4)

Safonau Cadw Cofnodion

RHAN 1

Y SAFONAU

1 Safonau ynghylch cadw cofnodion gan gorff

Safon 154: Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.

Safon 155: Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Safon 156: Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).

Safon 157: Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Safon 158: Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 134), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.

Safon 159: Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o—

- (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau

hyfforddi a ddarparwyd yn
Gymraeg (yn unol â safon
135), a

- (b) os darparwyd fersiwn
Gymraeg o gwrs yn unol â
safon 135, y ganran o
gyfanswm nifer y staff a
fynychodd y fersiwn honno
o'r cwrs.

Safon 160: Rhaid ichi gadw cofnod o nifer yr
aelodau o staff sy'n gwisgo
bathodyn (a roddir ar gael iddynt yn
unol â safon 144) ar ddiwedd pob
blwyddyn ariannol.

Safon 161: Rhaid ichi gadw cofnod o bob
asesiad a gynhaliwch (yn unol â
safon 145) mewn cysylltiad â'r
sgiliau Cymraeg y gallai fod eu
hangen mewn perthynas â swydd
newydd neu swydd wag.

Safon 162: Rhaid ichi gadw cofnod, mewn
perthynas â phob blwyddyn ariannol,
o nifer y swyddi newydd a'r swyddi
gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â
safon 145) fel swyddi sy'n gofyn—

- (a) bod sgiliau yn y Gymraeg
yn hanfodol;
- (b) bod angen dysgu sgiliau yn
y Gymraeg unwaith y
penodir rhywun i'r swydd;
- (c) bod sgiliau yn y Gymraeg
yn ddymunol; neu
- (ch) nad oedd sgiliau yn y
Gymraeg yn angenrheidiol.

RHAN 2

DEHONGLI'R SAFONAU

2 Rhaid dehongli'r safonau a bennir
yn Rhan 1 o'r Atodlen hon fel a
ganlyn.

3 At ddibenion safonau 154, 158,
159, 160 a 162, ystyr "blwyddyn
ariannol" yw blwyddyn ariannol y
corff ei hun.

Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol

RHAN 1

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

1 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau cyflenwi gwasanaethau

Safon 163: Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—

- (a) ar eich gwefan, a
- (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

2 Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno

Safon 164: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—
 - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a
 - (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored

i'r cyhoedd.

3 Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwyllo, hybu etc.

Safon 165: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—
 - (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,
 - (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a
 - (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

4 Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau cyflenwi gwasanaethau

Safon 166:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn

hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

5 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau

Safon 167: Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

6 Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg

Safon 168: Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

RHAN 2

SAFONAU LLUNIO POLISI

7 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau llunio polisi

Safon 169: Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

- (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

8 Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno

Safon 170: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—
 - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a
 - (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

9 Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwyllo

Safon 171: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac
- (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

10 Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau

llunio polisi

Safon 172:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

11

Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau llunio polisi

Safon 173:

Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

12

Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg

Safon 174:

Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

RHAN 3

SAFONAU GWEITHREDU

13 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau gweithredu

Safon 175: Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—

- (a) ar eich gwefan, a
- (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

14 Corff yn cyhoeddi gweithdrefn gwyno

Safon 176: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—
 - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a
 - (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrrwyd.

15 Corff yn cyhoeddi trefniadau goruchwylio, hybu etc.

Safon 177: Rhaid ichi—

- (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—
 - (i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr

ydych o dan
ddyletswydd i
gydymffurfio â hwy,

- (ii) hybu'r gwasanaethau
a gynigir gennych yn
unol â'r safonau
hynny, a
 - (iii) hwyluso defnyddio'r
gwasanaethau hynny,
a
- (b) cyhoeddi dogfen sy'n
cofnodi'r trefniadau hynny
ar eich mewnwrwyd.

16

Corff yn llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â safonau gweithredu

Safon 178:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad
("adroddiad blynyddol"), yn
Gymraeg, mewn perthynas â phob
blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r
modd y bu ichi gydymffurfio â'r
safonau gweithredu yr oeddech o
dan ddyletswydd i gydymffurfio â
hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol
gynnwys yr wybodaeth a ganlyn
(pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr
ydych o dan ddyletswydd i
gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir
atynt)—

- (a) nifer y cyflogeion sy'n
meddu ar sgiliau yn y
Gymraeg ar ddiwedd y
flwyddyn o dan sylw (ar
sail cofnodion a
gadwasoch yn unol â safon
158);
- (b) nifer yr aelodau o staff a
fynychodd gyrsiau
hyfforddi a gynigiwyd
gennych yn y Gymraeg yn
ystod y flwyddyn (ar sail
cofnodion a gadwasoch
yn unol â safon 159);
- (c) os cynigiwyd fersiwn
Gymraeg o gwrs gennych
yn ystod y flwyddyn, y
ganran o gyfanswm nifer y
staff a fynychodd y cwrs a
fynychodd y fersiwn
Gymraeg (ar sail
cofnodion a gadwasoch yn

unol â safon 159);

(ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 160);

(d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,

(ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 162);

(dd) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—

(a) ar eich gwefan, a

(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

17 **Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae'n bwriadu cydymffurfio â safonau gweithredu**

Safon 179: Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

18 **Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg**

Safon 180: Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

RHAN 4

SAFONAU CADW COFNODION

19 Corff yn rhoi cyhoeddusrwydd i safonau cadw cofnodion

Safon 181: Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—

- (a) ar eich gwefan, a
- (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.

20 Corff yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg

Safon 182: Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.

RHAN 5

DEHONGLI'R SAFONAU

21 Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhannau 1 i 4 fel a ganlyn.

22 At ddibenion safonau 166, 172 a 178, ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn ariannol y corff ei hun.

23 At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i lunio neu gyhoeddi unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid llunio neu gyhoeddi'r deunydd hwnnw yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon).

RHAN 6

DARPARIAETH ATODOL

24 **Gweithdrefnau cwyno**

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau a ganlyn, caiff—

- (a) cydymffurfio â hwy mewn un weithdrefn gwyno;
- (b) diwygio gweithdrefn gwyno sy'n bodoli eisoes.

(2) Y safonau yw—

- (a) safon 164;
- (b) safon 170;
- (c) safon 176.

25 **Trefniadau goruchwylio**

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau a ganlyn, caiff gydymffurfio â hwy drwy un set o drefniadau goruchwylio.

(2) Y safonau yw—

- (a) safon 165;
- (b) safon 171;
- (c) safon 177.

26 **Adroddiadau blynyddol**

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau a ganlyn, caiff gydymffurfio â hwy drwy gynnwys yr wybodaeth angenrheidiol mewn un adroddiad blynyddol o'r enw "Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg".

(2) Y safonau yw—

- (a) safon 166;
- (b) safon 172;
- (c) safon 178.

27 **Rhoi cyhoeddusrwydd i'r modd y mae corff yn bwriadu cydymffurfio â safonau**

(1) Pan fydd corff o dan ddyletswydd i gydymffurfio ag un neu ragor o'r safonau a ganlyn, caiff gydymffurfio â hwy mewn un ddogfen.

(2) Y safonau yw—

- (a) safon 167;
- (b) safon 173;
- (c) safon 179.

MEMORANDWM ESBONIADOL I

Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Iaith Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Alun Davies AC
Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Iaith Gymraeg

15 Rhagfyr 2016

Disgrifiad

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 ('y Rheoliadau') yn pennu safonau cyflenwi gwasanaethau; safonau llunio polisi; safonau gweithredu; a safonau cadw cofnodion.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r 27 sefydliad canlynol, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') i roi Hysbysiadau Cydymffurfio i'r sefydliadau hynny mewn perthynas â'r safonau a bennwyd:

Coleg Ceredigion	Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig;
Coleg Sir Gâr	Prifysgol Abertawe;
Coleg Caerdydd a'r Fro	Prifysgol Aberystwyth;
Coleg Cambria	Prifysgol Bangor;
Coleg y Cymoedd	Prifysgol Caerdydd;
Corff Llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant	Prifysgol Cymru;
Coleg Gŵyr Abertawe	Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant;
Coleg Gwent	Prifysgol De Cymru;
Coleg Penybont	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig;
Coleg Sir Benfro	Prifysgol Glyndŵr;
Grŵp Llandrillo-Menai	Prifysgol Metropolitan Caerdydd;
WEA YMCA CC Cymru	Y Brifysgol Agored;
Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn gwneud safonau'n benodol gymwys i'r 27 sefydliad a enwir uchod. Gosododd Llywodraeth Cymru Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 ar y cyrff uchod ym mis Chwefror 2016. Cafodd y Rheoliadau hynny eu gwrthod gan y Cynulliad diwethaf ar 15 Mawrth 2016.

Newidiadau polisi rhwng gwahanol setiau o Rheoliadau

Hyd yma, agwedd Llywodraeth Cymru at baratoi Rheoliadau yw sicrhau fod y safonau sy'n cael eu cynnwys ym mhob set o Rheoliadau yn addas ar gyfer grŵp penodol o sefydliadau neu sector. Gall hyn ddylanwadu ar y modd y gwneir penderfyniadau polisi, gyda safonau gwahanol yn cael eu paratoi ar gyfer sectorau gwahanol. Mewn Rheoliadau i sectorau eraill, nodwyd yr

amgylchiadau lle nad oedd y safonau yn gymwys. Defnyddir dull gwahanol gyda Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Mae paragraff 30, Atodlen 1, rhan 3 o'r Rheoliadau yn rhestrïr gwasanaethau a'r gweithgareddau mewn perthynas ar hyn y gellir disgwyl i sefydliad gydymffurfio â hi.

Mae'r rhestr hon o weithgareddau a gwasanaethau wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau i sicrhau na all gweithgareddau masnachol tebyg i ymchwil a chyhoeddi deunydd academiaidd eu dal gan safonau, yn ogystal â sicrhau na fydd y Rheoliadau felly, yn amharu ar allu'r sefydliad i gynhyrchu ei hincwm ei hun. Golyga hyn (yn unol ag hysbysiad cydymffurfio'r corff) y byddai gohebiaeth ynghylch unrhyw un o'r materion a rhestrir ym mharagraff 30 o Atodlen 1 yn cael eu dal gan safonau.

Llety penodedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg

Mae dyblygu ymrwymïadau cynlluniau iaith Gymraeg i strwythur cyfreithiol safonau'r Gymraeg yn gallu bod yn heriol oherwydd natur caeth drafftio safonau i greu dyletswyddau y gellir eu gorfodi. Un enghraifft o hyn yw mewn perthynas â llety myfyrwyr sydd wedi cael eu neilltuo yn benodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Mae cynlluniau iaith Prifysgol Aberystwyth a Chaerdydd yn awgrymu ymrwymïad yn eu cynlluniau iaith i ddarparu llety penodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ei gweld hi'n rhesymol na'n gymesur i bennu safonau sy'n rhoi hawl absoliwt i fyfyrwyr i lety sydd wedi'i neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Pe bai mwy o fyfyrwyr yn gwneud cais am lety Cymraeg na'r llefydd hynny sydd ar gael, mae'n anorfod y byddai'r corff methu cydymffurfio â'r fath safon.

Mae Rheoliadau newydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 sy'n gwneud darpariaeth i alluogi myfyrwyr i ddatgan diddordeb am lety sydd wedi'i neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, byddai'r corff dan ddyletswydd i hyrwyddo'r cynnig yna.

Enw'r Rheoliadau

Teitl y Rheoliadau a osodwyd yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Bwriedir i'r holl Rheoliadau a wneir o dan adran 26 o'r Mesur fod yn un gyfres barhaus, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn. Bydd hyn yn golygu bod y Rheoliadau'n haws eu trin a'i bod yn haws cyfeirio atynt, yn enwedig pan fydd Hysbysiadau Cydymffurfio'n cyfeirio at reoliadau. Ers y gwrthodwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016, gwnaed rheoliadau pellach. Yn sgil hynny, teimlir mai synhwyrol fyddai parhau gyda'r drefn rhifo dilyniannol. Yn ogystal, mi fydd yn haws gwahaniaethu rhwng y rheoliadau a'u gwrthodwyd a'r rheoliadau diwygiedig.

Cyrff yn Atodlen 6 y Rheoliadau

Mae Atodlen 6 i'r Rheoliadau hyn yn rhestru'r cyrff y mae'r Comisiynydd wedi'i hawdurdodi i roi hysbysiad cydymffurfio iddynt mewn perthynas â'r Safonau a bennwyd. Mae Adran 43 o'r Mesur yn darparu nad yw Rheoliadau'n gallu gwneud safonau'n benodol gymwys i berson oni bai bod y safon yn gymwysadwy iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff a restrir naill ai wedi'u nodi yng nghlofn 1 y tabl yn Atodlen 6 y Mesur neu o fewn categori o bersonau a nodir yn y golofn honno, ac mae colofn 2 yn disgrifio pa safonau a allai fod yn gymwysadwy iddynt (adran 36 y Mesur).

Rhifau yn y Rheoliadau

Mae'r Rheoliadau'n defnyddio'r wyddor Gymraeg, hy. (a), (b), (c), (ch) ac ati. Mae hyn yn effeithio ar safonau 27 A-D a nifer fach o is-baragraffau mewn Safonau unigol (gweler Safonau 99, 121, 134, 144, 145A, 161 ac 177. Mae hefyd yn effeithio ar:

- (1) paragraffau 30, 33, 40, 44, 45 a 59 o Atodlen 1, paragraff 2 o Atodlen 2, paragraffau 11 ac 13 o Atodlen 3; a
- (2) rheoliadau 2(5) a 3(4).

Mae'r arddull hwn yn wahanol i'r arddull rhifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Fel arfer, defnyddir y wyddor Saesneg yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg. Yn yr achos hwn, oherwydd natur a phwnc y Rheoliadau, defnyddiwyd y wyddor Gymraeg. Defnyddiwyd yr arddull rhifo hwn yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddryswch wrth groesgyfeirio. Defnyddiwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (OS 2015/996) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.

Y cefndir deddfwriaethol

Caiff y Rheoliadau eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan adran 26, 27, 39 a 150(5) o'r Mesur. Mae adran 26 y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau drwy reoliadau. Mae adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau gwahanol ar gyfer ymddygiadau gwahanol. Mae hefyd yn eu galluogi i bennu un safon neu nifer o safonau ar gyfer ymddygiad penodol.

Cyn y gall y Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â safon, rhaid i'r safon honno fod yn benodol gymwys i'r person hwnnw (adran 45). Mae adran 39 yn darparu bod safon yn benodol gymwys i berson pan fydd Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw yn ymwneud â'r safon honno. Mae adran 105(5) yn darparu bod unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn cynnwys pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaethau trosiannol, darfodol, canlyniadol ac arbed, ac unrhyw

ddarpariaethau eraill y mae Gweinidogion Cymru'n eu hystyried yn angenrheidiol neu'n briodol.

Yn unol ag Adran 150(2) o'r Mesur, rhaid i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron a'u cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (hy y weithdrefn gadarnhaol).

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaeth y Mesur gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a chreu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr iaith.

Cam allweddol i roi effaith i'r Mesur yw pennu safonau ac awdurdodi'r Comisiynydd i orfodi personau i gydymffurfio â'r Safonau hyn.

Mae adran 25 y Mesur yn darparu ei bod yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir amodau penodol. Mae'r amodau hynny'n cynnwys y canlynol:

- i. bod safon yn benodol gymwys i'r person (hy mae Gweinidogion Cymru wedi awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw mewn perthynas â'r safon honno);
- ii. bod y Comisiynydd wedi rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person;
- iii. bod yr hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i'r person gydymffurfio â'r safon;
- iv. bod yr hysbysiad cydymffurfio mewn grym.

Bydd y ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau yn cymryd lle'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddatblygwyd o dan Ddeddf yr Iaith 1993 ac a oedd yn cael eu monitro gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg nes iddo gael ei ddiddymu ar 31 Mawrth 2012, a chan y Comisiynydd Iaith ers 1 Ebrill 2012.

Mae dau ddiben i'r Rheoliadau. Y cyntaf yw pennu safonau.

Mae safonau sy'n perthyn i'r categorïau canlynol wedi'u pennu yn y Rheoliadau:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau - bydd y rhain yn cael eu gosod mewn perthynas â hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, neu i sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.
- Safonau llunio polisi - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar allu pobl i ddefnyddio'r iaith ac ar yr egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Safonau gweithredu - bydd y rhain yn delio â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau.
- Safonau cadw cofnodion - bydd y rhain yn ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am rai o'r safonau eraill, ac am unrhyw gwynion a dderbynnir

gan sefydliad. Bydd y cofnodion hyn yn helpu'r Comisiynydd i sicrhau bod sefydliad yn cydymffurfio â'r safonau.

Mae'r safonau wedi'u drafftio gyda'r nod o:

- wella'r gwasanaethau Cymraeg y gall siaradwyr Cymraeg eu disgwyl gan sefydliadau
- annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn fwy
- ei gwneud yn glir i sefydliadau'r hyn y mae angen iddynt ei wneud o ran y Gymraeg
- sicrhau cysondeb priodol o ran y dyletswyddau a roddir ar gyrff sydd yn yr un sectorau.

Mae rhai safonau'n dibynnu ar ei gilydd. Felly, mae'r Rheoliadau'n cynnwys tablau (yn Rhan 2 o Atodlenni 1 a 3) i ategu'r safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau gweithredu sy'n nodi pa safonau eraill y bydd angen eu gosod hefyd pan fydd safon benodol wedi'i chynnwys mewn hysbysiad cydymffurfio.

Ail ddiben y Rheoliadau yw awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiau cydymffurfio i'r sefydliadau a restrir uchod sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r safonau a nodwyd.

Ni fydd y Rheoliadau, pan fyddant yn dod i rym, yn cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i'r rheini sy'n defnyddio'r Gymraeg. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gam hanfodol yn fframwaith y Mesur, ac yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydymffurfio â'r safonau.

Mater i'r Comisiynydd fydd dewis pa safonau i'w gosod ar bob sefydliad drwy hysbysiad cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau'n pennu'r ystod o safonau y gellir eu gosod ar sefydliad. Nid oes raid i'r Comisiynydd ofyn bod pob sefydliad yn cydymffurfio â phob safon. Efallai y bydd sefydliad yn gorfod cydymffurfio â safon mewn rhai amgylchiadau yn unig ac nid mewn sefyllfaoedd eraill, yn dibynnu ar yr hyn a nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Bydd yr hysbysiad cydymffurfio hefyd yn nodi erbyn pryd y mae'n ofynnol i'r sefydliad gydymffurfio â safon.

Apelio

Bydd unrhyw sefydliad yn gallu herio'r gofyniad i gydymffurfio â safon benodol, ar sail p'un a yw'n rhesymol ac yn gymesur disgwyl iddynt wneud hynny.

Yn y lle cyntaf, bydd sefydliad yn gallu herio'r Comisiynydd ei hun. Os na allant ddatrys yr anghydfod, mae modd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg, ac wedi hynny i'r Uchel Lys.

Sanctiynau

Comisiynydd y Gymraeg fydd yn gyfrifol am orfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Mewn achosion lle bydd y Comisiynydd yn penderfynu bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â safon, gall gymryd camau gorfodi. O dan y Mesur,

gall camau gorfodi amrywio o lunio argymhellion neu roi cyngor i sefydliad, i orfodi cosb sifil nad yw'n fwy na £5,000.

Risgiau peidio â gwneud deddfwriaeth

Os nad yw'r Rheoliadau arfaethedig yn cael eu gwneud, bydd y risgiau canlynol yn cael eu gwireddu:

- Bydd y Cynlluniau Iaith a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn dal yn weithredol mewn perthynas â'r sefydliadau uchod.
- Os yw'r Cynlluniau Iaith yn parhau, ni fydd mecanwaith gorfodi ar gael os yw sefydliad yn methu â chydymffurfio â'i Gynllun.
- Ar hyn o bryd, mae Cynlluniau Iaith yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ac mae'r ymrwymadau mewn rhai Cynlluniau yn amhenodol. Mae hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r cyhoedd yn ansicr pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd hwn yn parhau os nad yw'r Rheoliadau'n cael eu gwneud. Er ei bod yn bosibl y bydd rhywfaint o amrywiaeth rhwng sefydliadau, mae'r safonau'n benodol eu natur ac felly byddant yn lleihau ansicrwydd y cyhoedd.
- Ansicrwydd ymhlith sefydliadau ynghylch eu darpariaethau Cymraeg, yn sgil y ffaith eu bod o dan yr argraff y bydd y safonau'n disodli eu Cynlluniau. Mae nifer o sefydliadau wedi dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno'r safonau a'r drefn fonitro a gorfodi newydd.
- Dim gwelliant o ran y defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliadau. Byddai'r defnydd o'r Gymraeg o fewn sefydliad yn parhau i ddibynnu ar ewyllys da'r sefydliad hwnnw, heb system fonitro yn ei lle.
- Ni fydd rhan allweddol o'r Mesur yn cael ei gweithredu.

Ceir rhagor o wybodaeth am risgiau a manteision gweithredu'r safonau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod, ac mae'r risgiau o beidio â chyflwyno safonau wedi'u hamlinellu yn adran 'Opsiw'n 1: gwneud dim' y manteision.

Ymgynghori

Rhwng mis Tachwedd 2014 a mis Chwefror 2015, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad gyda'r sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â'r safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Gwnaeth Gweinidogion Cymru ystyried yn llawn y casgliadau a gyflwynodd y Comisiynydd yn yr adroddiadau ar y Safonau. Mae'r adroddiadau hynny i'w cael ar wefan y Comisiynydd.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru peidio â chynnal ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd ar y Rheoliadau drafft. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau yn ail ymchwiliad y Comisiynydd wedi cael cyfle i gyfrannu at y broses o wneud y Safonau. Ymatebodd pob un o'r sefydliadau i ymchwiliad y Comisiynydd; mae gan y rhan fwyaf ohonynt Gynllun Iaith eisoes a phrofiad o ddatblygu darpariaeth Gymraeg. Ystyriwyd yn ogystal, ymrwymadau cynlluniau iaith y cyrff.

Yn ogystal, trafodwyd materion penodol ynghylch y Rheoliadau hyn gyda chynrychiolwyr sectorau er mwyn casglu mwy o wybodaeth am natur eu gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys Colegau Cymru, UMC Cymru, Prifysgolion Cymru a'r Coleg Gymraeg Cenedlaethol.

Yr asesiad o'r gystadleuaeth

Cynhaliwyd asesiad o'r gystadleuaeth - mae'r Rheoliadau'n annhebygol o gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth. Er mwyn i'r Rheoliadau gyflawni'r nod polisi o eithrio gweithgareddau masnachol, mae rhestr sy'n nodi mewn perthynas â pha faterion y gallai'r safonau fod yn gymwys wedi'i chynnwys yn y Rheoliadau. Gweler paragraff 30 o Atodlen 1 a pharagraff 2 o Atodlen 2 (Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a Safonau Llundain Polisi).

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal. Mae rhai safonau yn Rheoliadau Rhif 6 o dan y pennawd 'cyfarfodydd' (safonau 25-26B a 28-29B yn ymwneud â chyfarfodydd cymorth i fyfyrwyr yn ogystal â gweithdrefnau cwynion a disgyblu) yn gwneud darpariaethau penodol i ymateb i lefel iaith unigolion bregus. Bydd yr elfen cymorth i fyfyrwyr yn y safonau ynghylch cyfarfodydd yn cael eu gweithredu dim ond pan mai anghenion cwnsela neu faterion iechyd meddwl yr unigolyn fydd ffocws y cyfarfod. Nid yw'n berthnasol i faterion sy'n ymwneud â chymorth i unigolyn sydd â nam corfforol neu ar ei synhwyrau.

Y gwahaniaeth rhwng safonau'r cyfarfodydd sy'n ymwneud â chwynion, disgyblu a chymorth myfyrwyr a'r safonau ynghylch cyfarfodydd eraill yw lefel y ddarpariaeth Gymraeg (neu lefel y cyfieithu) sydd ar gael yn y cyfarfod. Yn y cyfarfodydd cwynion, disgyblu a chymorth myfyrwyr, byddai darpariaeth cyfieithu ddwy ffordd ar gael – o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg. I unigolion mewn sefyllfa neu gyflwr bregus, gallai'r broses o gyfnewid iaith yn ystod y cyfarfod gynyddu eu lefelau straen, felly mae'r cynnig i gael cyfieithu ddwy ffordd yn rhoi anghenion yr unigolion yn gyntaf. Y ffocws yma yw osgoi straen diangen i unigolyn sydd eisoes o dan straen meddyliol. Mae hyn yn hyrwyddo egwyddorion cyfle cyfartal gan roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar neu leihau unrhyw anfantais y gall unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig ei dioddef.

Mae cyfarfodydd sy'n ymwneud ag unigolion â nam corfforol neu ar eu synhwyrau wedi cael eu hystyried yn y safonau eraill ynghylch cyfarfodydd, lle mae'n bosibl eu cynnal yn Gymraeg. Os yw'r mater corfforol yn golygu bod yr unigolyn yn dioddef straen neu broblem iechyd meddwl arall, yna bydd y safonau 'cymorth myfyrwyr' yn cael eu gweithredu. Ar bob cam, bydd myfyriwr, p'un a oes nam corfforol arno neu ar ei synhwyrau ai peidio, yn cael cynnig cyfarfod yn Gymraeg. Mater i Gomisiynydd y Gymraeg wrth gwrs fydd penderfynu pa safonau y mae'n ofynnol i gorff gydymffurfio â nhw, ac ym mha amgylchiadau neu feysydd.

Rydym yn fodlon bod y gweithdrefnau penodol yn y Rheoliadau drafft yn cydfynd â gofynion cydraddoldeb Gweinidogion Cymru.

Adolygu ar ôl gweithredu

Mae'r Mesur yn darparu nifer o gyfleoedd i'r Comisiynydd ddwyn sylw Gweinidogion Cymru at addasrwydd y safonau a bennwyd yn y Rheoliadau. Er enghraifft:

- Gall y Comisiynydd gyflwyno argymhellion neu roi cyngor i Weinidogion Cymru (adran 4 o'r Mesur) a allai argymhell yn uniongyrchol ddiwygio'r Rheoliadau, os yw'n dymuno gwneud hynny. Hefyd gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar sail cyngor a roddir ganddi y byddai'n briodol adolygu'r safonau. Rhaid iddynt roi sylw dyledus i unrhyw argymhellion neu gyngor ysgrifenedig y mae'r Comisiynydd yn eu rhoi wrth arfer y swyddogaeth y mae'r argymhelliad neu'r cyngor yn ymwneud â hi.
- Mae adran 18 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad blynyddol. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gynnwys adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg (ymhlith materion eraill) a gallai hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys.
- Yn ogystal, mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal Ymchwiliad Safonau (adrannau 61 a 62 o'r Mesur) a all ystyried pa safonau a ddylai, neu a ddylai barhau i fod yn benodol gymwys i berson, p'un a yw'r safonau eisoes wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru ai peidio. Ar ôl cynnal Ymchwiliad Safonau, rhaid i'r Comisiynydd lunio Adroddiad Safonau a darparu copi ohono i Weinidogion Cymru. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i adroddiad o'r fath yn unol ag adran 66 o'r Mesur.

Yn amodol ar eu hysbysiadau cydymffurfio, bydd sefydliadau'n cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol sy'n amlinellu sut y maent wedi cydymffurfio â'r safonau a osodwyd arnynt (gweler safonau 166, 172 ac 178). Gallai'r adroddiadau blynyddol hyn hefyd godi materion yn ymwneud ag addasrwydd y safonau a bennwyd.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cefndir

1. Gofynnwyd i'r sefydliadau a oedd yn rhan o ail ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') gymryd rhan mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru. Cafodd holiadur yr Asesiad ei ddosbarthu gyda dogfennau ymchwiliad y Comisiynydd. Cynhaliwyd yr ymchwiliad rhwng 7 Tachwedd 2014 a 9 Chwefror 2015, a gofynnwyd i'r sefydliadau gyflwyno eu hymatebion yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.
2. Ymatebodd 73 o'r 119 sefydliad yn ail ymchwiliad y Comisiynydd i holiadur yr Asesiad, sef cyfradd ymateb o 61%. Roedd y sefydliadau hynny'n drawstoriad da o'r gwahanol sectorau, ac yn cynnwys sefydliadau gydag ystod amrywiol o ddarpariaethau Gymraeg. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddarparu gwybodaeth fanwl am gostau a manteision gweithredu'r safonau yn eu sefydliadau.
3. Ym mis Mai a dechrau Mehefin 2015, cyflwynodd y Comisiynydd ei hymateb swyddogol i'r Ymchwiliad Safonau i Lywodraeth Cymru, a hynny ar ffurf naw adroddiad o dan adran 64 o'r Mesur. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i (i) Adroddiadau Safonau'r Comisiynydd wrth benderfynu a ddylid arfer y pwerau yn Rhan 4 o'r Mesur (sy'n cynnwys y pŵer i bennu safonau) a sut i wneud hynny, a (ii) unrhyw gyngor a roddir gan y Comisiynydd yn ysgrifenedig.

Crynodeb o'r ymatebion

4. Mae 15 o'r 27 sefydliad (56%) a fydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Cylch 3 wedi darparu gwybodaeth ar gost eu Cynllun Iaith Gymraeg presennol, ac amcangyfrif o gost cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Dyma oedd y sefydliadau: Coleg Sir Gâr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Coleg Gwent, Grŵp Llandrillo-Menai, Grŵp NPTC, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Y Brifysgol Agored, Career Choices Dewis Gyrfa a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cywirdeb a defnyddioldeb data

5. Mae gennym bryderon am y data a gafwyd gan y sefydliadau ac a yw'n addas ar gyfer llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol cadarn a chywir. Gwnaeth y Comisiynydd seilio ei hail ymchwiliad ar y Rheoliadau drafft a baratowyd ar gyfer y cyrff yng nghylch 1 a oedd yn destun ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014. Felly, roedd yr ymatebion i'r Asesiad hefyd yn seiliedig ar y Rheoliadau hyn. Roedd rhai sefydliadau'n gyndyn o seilio eu hymateb ar Reoliadau drafft oherwydd y posibilrwydd y gallent newid, a hefyd eu bod wedi'u

paratoi'n benodol ar gyfer Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

6. I'w gwneud yn bosibl cynnal asesiad o gost ychwanegol cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, byddai'n rhaid i sefydliad ddarparu ffigur o'r gost o gydymffurfio gyda'i Gynllun Iaith Gymraeg presennol, ac amcangyfrif o gost cydymffurfio â Safonau. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion nid oedd modd i'r sefydliad ddarparu'r ffigurau, neu roeddent ond wedi darparu un ffigur.
7. Hyd yn oed lle darparwyd amcangyfrif o'r gost, pwysleisiodd nifer o sefydliadau ei bod yn anodd iddynt ddarparu data cywir heb wybod pa rai o'r safonau drafft y byddai disgwyl iddynt gydymffurfio â nhw. Mae'n edrych yn debyg bod rhai sefydliadau wedi darparu amcangyfrif o'r costau ar gyfer cydymffurfio â phob safon. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd pob safon yn cael ei gorfodi ar un sefydliad - mater i'r Comisiynydd fydd penderfynu ar hyn pan fydd yn rhoi hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 45 o Fesur y Gymraeg.
8. Mae sefydliadau hefyd wedi dehongli'r cwestiynau mewn gwahanol ffyrdd. Ceir nifer o enghreifftiau lle mae sefydliadau'n nodi y bydd eu costau'n cynyddu er mwyn cyflogi aelodau ychwanegol o staff i ddelio â gweithredu gwahanol gategoriâu o safonau, er bod eu tystiolaeth yn awgrymu mai un person yn unig y byddai ei angen i wneud y gwaith hwn. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol yr amcangyfrifon a ddarparwyd gan y sefydliadau hyn. Cafwyd enghreifftiau hefyd lle mae sefydliadau wedi cynnwys y gost o gyflogi staff i ddarparu gwasanaethau fel un o gostau cydymffurfio â'u Cynllun Iaith presennol. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y staff hyn wedi'u cyflogi i ddarparu gwasanaethau'r sefydliad, ac nid gwasanaethau cyfrwng Gymraeg yn unig weithiau.
9. Mae nifer o sefydliadau wedi darparu amcangyfrifon o gostau cydymffurfio sy'n sylweddol uwch na sefydliadau eraill tebyg.
10. Gyda hyn mewn cof, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn canolbwyntio ar yr effaith economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol ar sefydliadau a hefyd yn cwmpasu'r effaith ariannol cyn belled â phosibl. Os caiff y Rheoliadau sêl bendith y Cynulliad, caiff gwybodaeth bellach ei chasglu gan sefydliadau pan fydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiadau cydymffurfio a'r sefydliadau mewn sefyllfa i ddarparu costau mwy cywir. Wedyn, bydd modd cynnal asesiad llawn o'r effaith ariannol.

Yr opsiynau

11. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn:

- Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau gyda'r Cynlluniau Iaith presennol fel y'u gweithredir o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 27 sefydliad a restrir uchod.

12. Mae'r dadansoddiad canlynol yn ystyried y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hyn.

Costau a manteision

Costau

Opsiwn 1: Gwneud dim

13. Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ni fyddai angen i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â Safonau newydd ond byddai disgwyl iddynt barhau i ddarparu eu Cynlluniau Iaith presennol.

14. Mae tabl 1 yn crynhoi'r wybodaeth a gafwyd gan y sefydliadau ynghylch cost cydymffurfio â'r Cynlluniau Iaith presennol. Mae'r ystod o gostau fwy na thebyg yn adlewyrchu'r gwahaniaeth ym maint a chwmpas y sefydliadau dan sylw ynghyd â gwahanol ffyrdd o ddehongli'r cwestiynau yn yr holiadur.

Tabl 1 - Yr ystod o gostau ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Iaith presennol

	Ymatebion	Lleiafswm (£)	Uchafswm (£)
Cyrff Rheoliadau (Rhif 6)	15	0	629,000

Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 27 sefydliad a restrir uchod

15. Er na phenderfynwyd eto pa safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad, mae'n debygol y bydd y sefydliadau'n ysgwyddo costau untro a chostau rheolaidd ychwanegol er mwyn cydymffurfio â'r safonau.

16. Y prif gostau rheolaidd fydd costau staffio, yn enwedig ar gyfer staff ag arbenigedd ym meysydd cyfieithu, marchnata a pholisi. Mae'n debygol y bydd angen i'r sefydliadau ehangu eu cyfleusterau cyfieithu, naill ai drwy recriwtio mwy o gyfieithwyr mewnol neu drwy anfon gwaith cyfieithu allan i ddarparwyr allanol.

17. Yn ogystal, maent yn debygol o ysgwyddo costau untro a chostau rheolaidd ar gyfer hyfforddiant. Disgwylir i'r costau hyfforddi untro fod yn gysylltiedig â gweinyddu mewnol a gweithredu'r safonau, a bydd y costau hyfforddi rheolaidd yn canolbwyntio mwy ar yr angen posibl i ddarparu mwy o hyfforddiant statudol i staff yn Gymraeg ynghyd â hyfforddiant i staff wella eu sgiliau Cymraeg.

18. Fel y nodwyd uchod, cysylltwyd â'r sefydliadau dan sylw i ofyn iddynt ddarparu data ar gostau ar gyfer yr Asesiad hwn. Mae ein pryderon am y data a gasglwyd wedi'u hamlinellu uchod.
19. I ddangos yr amrywiaeth yn yr ymatebion, mae lleiafswm ac uchafswm y costau ychwanegol a nodwyd ar gyfer y sefydliadau hyn wedi'u nodi yn y tabl isod. Er bod yr amcangyfrif o'r uchafswm yn allanolyn, roedd sefydliadau eraill yn nodi cynnydd mawr mewn costau cydymffurfio. O ran y lleiafswm, nid yw'n glir pa mor realistig yw awgrymu (cyn gwybod pa safonau fydd yn berthnasol) na fydd sefydliad yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol wrth gydymffurfio â'r safonau.

Tabl 2 - Yr ystod o gostau ychwanegol a nodwyd gan sefydliadau (£)

	Ymatebion	Lleiafswm (£)	Uchafswm (£)
Cyrff Rheoliadau (Rhif 6)	15	0	10,000,000

20. Oherwydd y pryderon uchod, ystyrir bod y data'n anghyflawn ac o bosibl yn anghyson. Yn dilyn trafodaethau ag Economegwyr ac Ystadegwyr y Llywodraeth, cytunwyd nad yw'r data a gasglwyd yn ddigon cadarn i'w ddefnyddio mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Yn sgil yr amrywiaeth yn y data a gyflwynwyd a'r ansicrwydd o ran pa safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad, byddai hyd yn oed nodi ffigur cyfartalog yn annhebygol o fod yn adlewyrchiad cywir o gost cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
21. Ystyriwyd cynnal cylch casglu data arall, ond penderfynwyd bod y canlyniad yn debygol o fod yn debyg ac na fyddai modd casglu'r data angenrheidiol i lunio asesiad cadarn o'r goblygiadau o ran cost nes bod gwybodaeth bellach ar gael ar ba safonau fydd yn berthnasol i bob sefydliad.
22. Yn ogystal â'r costau cydymffurfio a ysgwyddir gan y sefydliadau, mae Comisiynydd y Gymraeg a Thribiwnlys y Gymraeg hefyd yn debygol o ysgwyddo costau ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r safonau. Yn olaf, bydd proses apelio'n cael ei sefydlu. Golyga hyn y bydd sefydliad sy'n credu bod y safonau a orfodwyd arno yn afresymol neu'n anghymesur yn gallu apelio i'r Comisiynydd yn y lle cyntaf, ac wedi hynny i Dribiwnlys y Gymraeg. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r prosesau hyn yn wybyddus eto.

Manteision

Opsiwn 1: Gwneud dim

23. Dyma'r opsiwn sylfaenol ac nid oes manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

24. Byddai gwneud dim yn golygu bod y Cynlluniau Iaith presennol, sydd wedi bod yn eu lle ers 1993, yn parhau fel ag y maent. Byddai swyddogaeth reoleiddio'r Comisiynydd yn parhau'n debyg i swyddogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddai'r gweithdrefnau ar gyfer cytuno ar gynlluniau a'u diwygio, sy'n llyncu llawer o adnoddau, hefyd yn parhau, ynghyd â'r drefn orfodi gyfyngedig bresennol.

Opsiwn 2: Cyflwyno safonau mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer y 27 sefydliad a restrir uchod

25. Diben y safonau yw gwella lefel y gwasanaeth y gall aelodau'r cyhoedd ddisgwyl ei derbyn. Ar hyn o bryd (a nes bod Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi'r hysbysiadau cydymffurfio), mae ond yn bosibl amlinellu'r manteision cyffredinol a ddisgwylir.

26. Bydd y safonau'n nodi'n glir beth y mae angen i'r sefydliadau ei wneud o ran y Gymraeg, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl o ran gwasanaethau Cymraeg. Bydd yr eglurder hwn, ar gyfer y cyhoedd a'r sefydliadau, yn helpu i sicrhau bod y safonau'n gallu cael eu gorfodi'n effeithiol ac yn arwain at gynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg.

27. Mae 24 o'r 27 sefydliad eisoes yn gweithredu Cynlluniau Iaith ac eisoes yn gwneud nifer o'r pethau a nodwyd yn y safonau. Mae'r safonau'n adeiladu ar y Cynlluniau ac yn rhoi gofynion mwy cadarn ar y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, ni all y Comisiynydd ond pennu safonau sy'n rhesymol ac yn gymesur ar gyfer pob sefydliad unigol.

28. Ar lefel ymarferol, bydd y safonau'n cyflwyno dyletswyddau penodol a gorfodadwy yn lle'r ymrwymadau yn y Cynlluniau sydd weithiau'n amwys.

29. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol a strategol i brif-ffrydio'r Gymraeg. Bydd y 'cynnig rhagweithiol' yn allweddol i hyn, sy'n rhoi cyfrifoldeb ar y sefydliad i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na disgwyl i'r unigolyn ofyn amdanynt. Bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn i wella'r gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

30. Bydd gwell trefn orfodi yn cynnig dull mwy effeithiol o ymdrin ag achosion honedig o beidio â chydymffurfio â'r gofynion ond yn sicrhau hefyd y gellir datrys cwynion yn gynnar ac yn anffurfiol os yw hynny'n briodol.

31. Fel rhan o broses yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, gofynnwyd i sefydliadau fynegi barn ar unrhyw fanteision ieithyddol, cymdeithasol neu amgylcheddol i gyflwyno safonau. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion - o sefydliadau nad oedd yn gweld unrhyw fantais i gyflwyno safonau i'r rheini a oedd yn gweld y safonau fel cyfle mewn sawl ffordd.

32. O safbwynt economaidd neu fusnes, roedd rhai sefydliadau'n gweld y safonau fel cyfle i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu gweithluoedd. Dywedwyd y gallai hyn arwain at arbedion mwy hirdymor ar waith cyfieithu

a chyfieithu ar y pryd a oedd wedi bod yn cael ei anfon allan. Byddai hefyd yn cynyddu eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a fyddai'n ddefnyddiol wrth weithio gyda sefydliadau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Nododd sawl sefydliad addysg uwch y gallai'r safonau helpu i recriwtio mwy o fyfyrwyr sy'n hanner o Gymru yn gyffredinol, yn ogystal â recriwtio myfyrwyr i gyrsiau cyfrwng Cymraeg, a chynyddu eu hincwm o ganlyniad.

33. Dywedodd rhai sefydliadau y byddai'r safonau'n eu helpu i wella'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig i bobl ddwyieithog a denu cwsmeriaid newydd. Soniwyd hefyd am ddarparu gwell amgylchedd gweithio i staff, a chefnogi staff i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gweithle.
34. Soniodd nifer fach o sefydliadau am eu cyfrifoldeb cymdeithasol i hyrwyddo'r Gymraeg, gan ddweud y byddai'r safonau'n eu helpu i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn amgylchedd busnes. Gallai hyn gynyddu hyder pobl a'u helpu i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Roedd un sefydliad yn teimlo y byddai'r safonau'n rhoi mwy o werth i'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Nododd un brifysgol y byddai'r safonau yn ei helpu i ymateb i'r galw cynyddol am siaradwyr Cymraeg yn y proffesiynau meddygol, optometreg, fferylliaeth, deintyddiaeth, gwaith cymdeithasol, gofal iechyd a'r gyfraith.
35. Yn olaf, dywedodd rhai sefydliadau fod cydymffurfio â'r Safonau'n debygol o ehangu eu cysylltiadau â'u cymunedau lleol ac annog mwy o bobl leol i gymryd rhan yn eu gweithgareddau. Soniodd nifer o sefydliadau eraill am fwy o gynhwysiant cymdeithasol hefyd.

Casgliad

36. Mae'r ansicrwydd ynghylch pa safonau y bydd angen i bob sefydliad gydymffurfio â hwy yn golygu nad yw'n bosibl llunio asesiad cadarn ar hyn o bryd o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau.
37. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r sefydliadau perthnasol cyn cyhoeddi'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol. Mae ffactorau megis pa mor rhesymol a chymesur yw safonau unigol yn debygol o gael eu hystyried yn gyntaf, ynghyd â pha safonau y bydd disgwyl i sefydliadau gydymffurfio â nhw ac ym mha amgylchiadau. Fel rhan o'r broses hon, gallai'r sefydliadau gyflwyno asesiad o'r costau a'r manteision cymharol sy'n gysylltiedig â'r Safonau. Gallai'r Comisiynydd ystyried hyn wrth benderfynu a yw'r safonau'n rhesymol ac yn gymesur. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gwblhau cyn bod yr hysbysiadau cydymffurfio'n cael eu rhoi.

PWNC Y PAPUR: Craffu ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) a chylchoedd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg dilynol yn ystod tymor y Pumed Cynulliad

I SYLW: Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

PARATOWYD GAN: Grŵp Hawl, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

DYDDIAD: 6 Ionawr, 2017

1. Cefndir

1.1 Paratwir y Papur hwn mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor, drwy law'r Clerc, am sylwadau'r Gymdeithas ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) a osodwyd yn enw Alun Davies AC ar 15 Rhagfyr 2016.

1.2 Gallu Gweinidogion Cymru i baratoi rheoliadau ar ffurf safonau ymddygiad (neu Safonau'r Gymraeg fel y'i hadnabyddir) i'w gosod ar gyrrff ac i'w rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, yw un o ddarpariaethau pwysicaf Mesur y Gymraeg 2011.

1.3 Yn ogystal â dwyn sylw aelodau'r Pwyllgor i faterion sy'n benodol i'r cylch hwn o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (sef Rhif 6), ystyriwn ei bod yn allweddol amlinellu'r cyd-destun ehangach ynglŷn â pharatoi is-ddeddfwriaeth rheoliadau Safonau'r Gymraeg o safbwynt swyddogaeth craffu'r Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa.

1.4 Mae gwneud hynny'n amserol ac yn berthnasol ar sawl cyfrif:

Y rheoliadau hyn sy'n sail i'r gyfundrefn gyfredol o ddeddfwriaeth ym maes y Gymraeg a'r rheoliadau hyn sy'n rhoi hawliau iaith i ddinasyddion Cymru. Chwe blynedd ers i'r Cynulliad basio Mesur y Gymraeg 2011, megis dechrau mae'r gwaith o lunio a gosod yr is-ddeddfwriaeth sy'n rhoi effaith iddo, felly mae llawer o waith i'w wneud yn ystod oes y Cynulliad hwn a'r Pwyllgor hwn i weithredu Mesur 2011. Mae'n ddyletswydd ar y ddeddfwrfa i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth (cynradd ac eilradd) sy'n cyrraedd y llyfr statud yn ddeddfwriaeth dda, sy'n ateb y galw;

amlygwyd gwendidau yn y ffordd y datblygodd y broses o lunio is-ddeddfwriaeth/rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn ystod y Pedwerydd Cynulliad; penllanw hyn oedd penderfyniad Cyfarfod Llawn y Cynulliad i drechu Safonau'r Gymraeg (Rhif 3)¹ ar gyfer prifysgolion a cholegau addysg bellach – a hynny yn bennaf yn sgil: gwanhau'r rheoliadau yn ormodol wrth i'r broses o'u llunio fynd rhagddi; pryderon mai ystyriaethau cyrrff yn llusgo'u traed o ran y Gymraeg oedd yn gyrru gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru wrth ddrafftio'r rheoliadau a chan fod cyndynrwydd y Llywodraeth i ymgynghori a rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu a

¹ Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) yw cynigion diweddaraf Gweinidogion Cymru ar gyfer y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, i gymryd lle Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) na ddaeth i rym yn sgil eu gwrthod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mawrth 2016.

dylanwadu ar gynnwys y rheoliadau yn “rhwystr gwaith y Cynulliad hwn”², yng ngeiriau un Aelod;

mae sefydlu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn cynnig cyfle i ddatrys y materion hyn, i sicrhau gwell llywodraethiant a gwell is-ddeddfwriaeth ar y llyfr statud ac i sicrhau hawliau iaith i bobl Cymru, fel y bwriedid gan Fesur y Gymraeg 2011. Croesawn yr ysbryd rhagweithiol y mae'r Pwyllgor hwn eisoes wedi'i fabwysiadu wrth fynd ati i ymgysylltu â dinasyddion ar ei gylch gwaith ac ati. Yn hyn o beth, pwysleisiwn fod sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor (gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg) wedi tynnu sylw at yr angen i roi sylw dyledus i'r gyfundrefn Safonau a datblygu rheoliadau Safonau'r Gymraeg ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor. Hyderwn y bydd y Papur hwn yn tanlinellu'r angen ymhellach i sicrhau cyfeiriad penodol yn y Flaenraglen Waith i graffu ar reoliadau Safonau'r Gymraeg ac i fanteisio ar y cyfle sydd gan y Pwyllgor i roi sylw o'r newydd iddynt ac i gyfrannu at eu datblygu.

2. Cryondeb: proses llunio a gosod rheoliadau Safonau'r Gymraeg

2.1 Er eglurder, amlinellir y gwahanol gamau yn y broses o lunio a gosod rheoliadau Safonau'r Gymraeg:

Cam 1³: Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal Ymchwiliad Safonau ar gasgliad o gyrff neu sector benodol a enwir ym Mesur y Gymraeg 2011; gwahoddiad i sefydliadau, rhanddeiliaid a'r cyhoedd gyfrannu at yr Ymchwiliad Safonau. Y drefn fu defnyddio *Rheoliadau Safonau'r Gymraeg drafft/Rhif 1* y Llywodraeth i lywio'r ymchwiliadau safonau hyd yn hyn.

Cam 2: Y Comisiynydd yn cyflwyno adroddiad Safonau i Weinidog y Gymraeg, gan argymhell pa weithgareddau y dylid eu dal gan Safonau a natur y Safonau i'w gosod ar gyrff – hynny yw, cynnwys y rheoliadau arfaethedig.

Cam 3: Gweinidog y Gymraeg yn gosod rheoliadau i wneud Safonau'r Gymraeg yn 'benodol gymwys' i'r casgliad o gyrff neu sector benodol fu'n destun Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd gerbron y Cynulliad. Defnyddir y weithdrefn Negyddol; cyfeirio'r rheoliadau at y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a chynnal pleidlais ar y rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

Cam 4: Wedi'r rheoliadau gael eu gwneud yn benodol gymwys i'r gyrff penodol dan sylw wrth eu cytuno yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad, gall Comisiynydd y Gymraeg lunio Hysbysiad Cydymffurfio drafft i unrhyw un neu ragor o gyrff penodol, yn manylu ar ba rai o'r rheoliadau neu'r cyfan ohonynt y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw ac erbyn pa bryd. Gall gyrff gyflwyno sylwadau ar gynnwys yr Hysbysiad Cydymffurfio drafft, ac yn eithaf aml, fe wneir eithriadau i'r Safonau. Dyroddir Hysbysiad

² <http://www.cynulliad.cymru/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3545&language=cy&assembly=4&c=Record%20of%20Proceedings#285515>

³ Er gwybodaeth yn unig, mewn ymgais i symleiddio'r camau perthnasol.

Cydymffurfio terfynol ac fe all corff apelio'r Safonau a osodwyd unrhyw adeg cyn y Dyddiad Gosod drwy Dribiwnlys y Gymraeg.

2.2 Adnabyddir diffyg difrifol o ran craffu yng Ngham 3 y broses o fewn strwythurau craffu mewnol y Cynulliad Cenedlaethol, fel y daeth i'r amlwg yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

2.3 Er enghraifft, bu tuedd i'r Llywodraeth wanhau'r Rheoliadau fu'n destun Ymchwiliad Safonau'r Comisiynydd a newid llythyren ac ysbryd proses y bu i randdeiliaid a'r cyhoedd gymryd rhan ynddi mewn ffydd – heb orfod cyfiawnhau'r rhesymeg mewn unrhyw fodd ystyrion. Bu diffyg cyfleoedd digonol i graffu ar benderfyniadau polisi'r Llywodraeth wrth lunio rheoliadau i wneud Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i gyrff sy'n ymgymryd â gweithgareddau gwahanol iawn i'w gilydd – lle nad yw'r templed drafft yn ddigonol nac yn berthnasol yn aml iawn.

3. Datrysiadau i sicrhau gwell craffu a gwell llywodraethiant

3.1 Cred y Gymdeithas mai hawliau cyffredinol i'r Gymraeg ar wyneb deddfwriaeth gynradd yn unig wnaiff sicrhau hawliau eglur, cadarn a diamwys i bobl Cymru fedru defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Dylai'r Rheoliadau – Safonau'r Gymraeg – fanylu ar yr hawliau hynny, fel cig ar esgryn fel petai.

3.2 Serch hynny, mae'r modd y ceir hawliau iaith wrth ymwneud â chyrrff penodol ac mewn sefyllfaoedd cyfyngedig yn sgil llunio is-ddeddfwriaeth neu reoliadau ac yna gosod Safonau'r Gymraeg drwy Hysbysiadau Cydymffurfio - yn absenoldeb hawliau iaith cyffredinol ar wyneb deddf - yn gyfystyr â gweithredu cyfundrefn heb gig ar yr esgryn yn gyrru'r gwaith. Heb yr hawliau cyffredinol ar wyneb y Mesur a fyddai'n gosod fframwaith gadarn ar gyfer y Safonau, mae'n neilltuoel bwysig bod hawliau iaith - sy'n deillio o'r rheoliadau a gytunir gan y Cynulliad - mor eglur â phosibl i bobl eu deall a'u bod nhw'n ateb anghenion ieithyddol dinasyddion Cymru a'r rheiny sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, yn anad dim arall.

3.3 Hyd yma, y ffordd mwyaf llwyddiannus o ddylanwadu ar gynnwys rheoliadau Safonau'r Gymraeg wedi'u llunio fu eu gwrthod yn dilyn ymgyrch gan undebau'r myfyrwyr⁴. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ddatrysiad cynaliadwy yn y pendraw ac mae'n rhwystro gweithredu deddfwriaeth gynradd y Cynulliad (hynny yw, Mesur y Gymraeg 2011) ac, fel y gwelir yn yr achos hwn, fe gymerodd bron i flwyddyn i reoliadau gael eu hail-osod gerbron y Cynulliad ar gyfer y sectorau dan sylw - heb nemor ddim newid strwythurol i'w cynnwys. Byddai caniatáu ychydig wythnosau yn hwy o graffu ar y rheoliadau hyn yn arwain at well is-ddeddfwriaeth, gan gryfhau gweithgarwch craffu'r Cynulliad fel deddfwriaeth ynghyd â sicrhau gwell canlyniadau i ddinasyddion Cymru o ran eu hawliau iaith.

⁴ <http://golwg360.cymru/newyddion/cymru/217990-safonau-iaith-prifysgolion-wediu-gwrthod>

3.4 Argymhellwn y dylai'r Pwyllgor ystyried cyflwyno'r gwelliannau canlynol i'r broses o graffu ar reoliadau Safonau'r Gymraeg i sicrhau gwell llywodraethiant ac i sicrhau nad yw swyddogaeth y ddeddfwrfa'n cael ei danseilio:

- Dod i gytundeb â'r Gweinidog y bydd yn cyflwyno cylchoedd dilynol rheoliadau Safonau'r Gymraeg (ar ffurf drafft) gerbron y Pwyllgor o hyn allan ar gyfer rhag-ymgyngori, cyn y caiff rheoliadau terfynol eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cytuno yn y Cyfarfod Llawn, gan ei gwneud yn bosibl i'r Pwyllgor ystyried rhinweddau **polisi'r** rheoliadau yn y dull arferol ac fel rhan o'i Raglen Waith;
- Y Pwyllgor i wahodd sylwadau gan randdeiliaid ac ysgrifennu at y Gweinidog i geisio eglurder ar reoliadau Safonau'r Gymraeg drafft a/neu i roi pwysau arno i ail-ystyried elfennau sy'n peri problem, gan na all Aelodau'r Cynulliad gynnig gwelliannau yn y Cyfarfod Llawn – dim ond gwrthod y rheoliadau;
- Cadeirydd y Pwyllgor i allu adrodd i'r Cyfarfod Llawn am rinweddau **polisi** holl rheoliadau safonau'r Gymraeg dilynol;
- Argymhell i'r Llywodraeth y dylai sefydlu grwpiau technegol rhanddeiliaid ar gyfer gwella'r broses lunio.

4. Sylwadau penodol ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6); gosodwyd ar 15 Rhagfyr 2016

4.1 Fel soniwyd eisoes, penderfynodd Aelodau'r Cynulliad arfer y dull mwyaf grymus sydd ar gael iddynt o ran dylanwadu ar gynnwys rheoliadau Safonau'r Gymraeg yn achos y rheoliadau gwreiddiol a oedd yn ymhél â'r sectorau hyn (addysg uwch ac addysg bellach), sef eu gwrthod yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 15 Mawrth 2016. Gwnaeth hynny, yn ei dro, anfon neges gref i'r Llywodraeth am y cylch hwnnw o reoliadau, ynghyd â'r broses yn ei chyfanrwydd o safbwynt diffyg democrataidd o fewn strwythurau'r Cynulliad hefyd. Ymddengys, o gael cipolwg ar y rheoliadau a wrthodwyd ar 15 Mawrth 2016 a'r rhai a osodwyd ar 15 Rhagfyr 2016, bod yr enillion o wneud hynny fel a ganlyn:

Hawl i fynegi dymuniad i gael llety myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

Hawl i Fewnrwyd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

Hawl i diwtor personol sy'n siarad Cymraeg

Hawl i weld arwyddion ar adeiladau'r corff yn Gymraeg

Hawl i'r Gymraeg mewn canolfannau celfyddydau

4.2 Yn ddiamau, mae'r consesiynau hyn yn rhai pwysig iawn, er yr erys llawer o wendidau difrifol. Wedi dweud hynny, nid yw'n arfer dda o ran llywodraethiant a chraffu mai'r unig ffordd sydd gan Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid i ddylanwadu ar agweddau holl bwysig ar hawliau iaith pobl Cymru yw drwy bleidleisio'n erbyn

rheoliadau, yn hytrach na meddu ar y gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses ddemocrataidd. Mae angen dybryd i'r Pwyllgor fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd hwn – ar y trywydd a awgrymwn ym mhennawd 3 (uchod) – ar gyfer cylchoedd dilynol rheoliadau Safonau'r Gymraeg.

4.3 Cydnabyddir, serch hynny, na fydd modd dod i gytundeb ar ddiwygio'r dull craffu, fel yr amlinellwn uchod, mewn perthynas â chyflwyno Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) mewn pryd ar gyfer pleidlais arnynt yn y Cyfarfod Llawn ar 31 Ionawr 2017.

4.4 Argymhellwn y dylai'r Pwyllgor, drwy'r Cadeirydd, ysgrifennu at y Gweinidog cyn gynted â phosibl i geisio atebion ynghylch y pryderon sylweddol a ganlyn o ran Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) nad ydynt wedi'u datrys o hyd, a'i atgoffa o'r grymoedd y mae'r Pwyllgor yn meddu arnynt wrth ohebu ag ef:

- i) Y prif faen tramgwydd o hyd yw y **cyfyngir cwmpas Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) i restr gul o weithgareddau ym mharagraff 31, Rhan 3, tudalen 43, yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i fyfyrwyr** – a hynny gydag is-ddeddfwriaeth sydd eisoes yn feintiol ac sy'n peryglu glastwreiddio egwyddorion canolog y ddeddfwriaeth gynradd. Dywed y Gweinidog yn y Memorandwm Esboniadol a osodwyd ochr yn ochr â'r Rheoliadau hyn mai'r rheswm am hyn yw:

“i sicrhau na all gweithgareddau masnachol tebyg i ymchwil a chyhoeddi deunydd academaidd eu dal (sic) gan safonau, yn ogystal â sicrhau na fydd y Rheoliadau felly, yn amharu ar allu'r sefydliad i gynhyrchu ei hincwm (sic) ei hun”

Fodd bynnag, nid yw'r Gweinidog yn cyfiawnhau rhesymeg y Llywodraeth mewn modd ystyrion wrth benderfynu i ddrafftio yn y dull hwn – sy'n torri'n groes i'r cylchoedd blaenorol ac yn glastwreiddio'r ddeddfwriaeth gynradd. Mae hefyd yn rhagfarnu yn erbyn y sector addysg bellach, gan fod ystyriaethau megis ymchwil a chyhoeddi ond yn berthnasol i'r sector addysg uwch mewn gwirionedd.

Ymhellach, mae'n enghraifft o ddrafftio deddfwriaeth gwael ar unrhyw gyfrif ac nid yw'n ffordd gynaliadwy o fynd i'r afael â chyfraith rheoleiddio. Ystyrier pa mor hurt yw'r sefyllfa yng nghyd-destun y Safonau sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg, er enghraifft. Ceir Safonau yng nghorff y safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n dweud y dylid gwneud hynny, pe bai'r Comisiynydd yn penderfynu gosod y Safon(au) hynny ar gorff; fodd bynnag, gan nad yw'r Safonau ond yn gymwys i'r graddau y maen nhw'n ymwneud â'r rhestr ym mharagraff 31, tudalen 43, rhaid eu darllen ynghyd â'r rhestr gul honno o weithgareddau. Sut y bydd modd penderfynu a oes rhaid i'r corff ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg ai peidio, cyn i'r ymholiad gael ei wneud? Gellid gwneud cymhariaeth yma â'r model datganoli 'pwerau a roddwyd' a 'phwerau a gedwir'. Ag ymestyn y trosiad hwnnw, y model 'pwerau a roddwyd' a ddefnyddir yn achos y sector holl bwysig hon, yn wahanol i'r model 'pwerau a gedwir' lle rhestrir unrhyw eithriadau, a chymryd

yn ganiataol bod popeth arall yn gymwys, yn achos yr holl sectorau eraill. Am yr un rhesymau ag y mae'r model datganoli hwnnw yn annigonol, felly hefyd yn achos llunio rheoliadau i greu hawliau iaith – ac fe ddylid ei osgoi ar bob cyfle.

(a) Dylid ceisio atebion gan y Gweinidog a'i annog i gyflwyno set o reoliadau sy'n hepgor paragraff 31 ac yn nodi'r agweddau a sonnir amdanynt yn y Memorandwm fel eithriadau (e..e ymchwil, cyhoeddi, deunyddiau academaidd ayyb);

(b) Yn absenoldeb ewylllys i wneud hynny ar ran y Gweinidog, dylid ei annog i dynnu'r rheoliadau hyn yn ôl a'u cyflwyno fel dwy set ar wahân - gan gael gwared ar baragraff 31, yn achos y sector addysg bellach i ehangu ar hawliau defnyddwyr y sector a'r cyhoedd i'r Gymraeg.

ii) Yn sgil y drafftio trwsgl hwn, sy'n cyfyngu cwmpas y Safonau ac nad yw'r Gweinidog wedi rhoi sylw iddo o hyd, **mae llawer o weithgareddau pwysig yn parhau i gael eu colli** - a'r rheiny'n weithgareddau sylfaenol megis gohebiaeth bersonol i fyfyrwyr, cofnodion myfyrwyr, anfonebau ffioedd dysgu a thalu ffioedd. Mae amwysedd ynghylch a fydd modd manteisio ar fwyafrif y Safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd o gwbl hefyd, gan nad oes cyfeiriad i gyd-fynd â'r safonau hynny ym mharagraff 31, o ddilyn y patrwm drafftio hwn.

(c) Fan leiaf, os glynir at yr un patrwm drafftio ffaeledig hwn, dylid mynnu bod y Gweinidog yn ychwanegu'r gweithgareddau canlynol at y rhestr ym mharagraff 31: gohebiaeth bersonol i fyfyrwyr; cofnodion myfyrwyr; talu ffioedd myfyrwyr; ceisio am ysgoloriaethau myfyrwyr a rhoi gwybod am benderfyniad ysgoloriaethau; a chyfarfodydd i'r cyhoedd neu garfan o fyfyrwyr mewn blwyddyn benodol.

iii) Codwyd pryderon yn ystod y dadlau ynghylch Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) eu bod **yn annog cyfieithu gwaith asesedig myfyrwyr i'r Saesneg** ac yn annog sefydliadau addysg i weithredu'n groes i ganllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch, er enghraifft, sy'n dweud y dylid ceisio asesu gwaith yn yr iaith y'i cyflwynwyd bob amser⁵. Ymhellach, dadleuwyd bod yr eithriadau yn Rhan 3 y safonau cyflenwi gwasanaethau yn groes i egwyddor ganolog y Mesur am ei fod, nid yn unig yn caniatáu'r cyrff addysg i gyfieithu gwaith eu myfyrwyr a gyflwynwyd yn Gymraeg i'r Saesneg er mwyn ei farcio, ond y gellid **darparu'r adborth yn Saesneg**. Nid yw'r Rheoliadau diwygiedig wedi'u newid yn hyn o beth a dylid dwyn y Gweinidog i gyfrif ac erfyn arno i gael gwared ar y cymalau hyn. Fe ellid ymdrin ag unrhyw eithriadau drwy gyfrwng Hysbysiadau Cydymffurfio'r cyrff perthnasol, ar ôl

⁵ <http://www.gaa.ac.uk/cy/Publications/Documents/guidelines-assessing-Welsh.pdf>

derbyn tystiolaeth na fyddai'n rhesymol ac yn gymesur i'r corff perthnasol gydymffurfio â'r safon benodol honno ym mhob cyd-destun, yn hytrach na lleihau'r disgwyliadau ar holl gyrff y sectorau yn hyn o beth, a gwanhau'r canlyniadau i fyfyrwyr.

(ch) Dylid mynnu bod y Gweinidog yn newid ei feddwl ac yn ufuddhau i Ganllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ac i egwyddorion canolog y ddeddfwriaeth gynradd sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer llunio'r rheoliadau hyn wrth hepgor yr eithriad ym mharagraff 64, tudalen 53 ynghylch Safon 90 a 90A i osgoi annog cyfieithu gwaith a sicrhau adborth Cymraeg ar waith a gyflwynwyd yn Gymraeg.

- iv) Mae pryderon yn parhau i fodoli ynghylch **defnydd y Gymraeg ar ryngwynebau cyfrifiaduron** a gwefannau rhith-dysgu myfyrwyr ac ynghylch cael **gwiryddion sillafu** ar gyfrifiaduron myfyrwyr. Dengys hyn ddiffygion polisi ar ran y Llywodraeth a methiant i sicrhau 'llywodraeth unedig', gan y manylir ar yr elfen hon yn benodol yn Strategaeth Iaith gyfredol y Llywodraeth, ond ni adlewyrchir hynny yn neddfwriaeth y Llywodraeth o fewn y maes polisi hwn. Dywed Iaith Fyw:Iaith Byw (2012): *"mae angen ystyried a fyddai modd gosod **meddalwedd cyfrwng Cymraeg a rhyngwynebau Cymraeg ar bob gorsaf waith mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled Cymru**"* (tudalen 46). Mae egwyddor y cynnig rhagweithiol – sydd i fod yn gyrru'r holl Safonau – yn cael ei hepgor hefyd yng nghyswllt y gwiryddion sillafu, gan y byddai'n rhaid mynd i chwilio am wirydd sillafu ar wefan rhith-ddysgu'r corff, er bod rhai Saesneg ar gael yn ddiodyn ar beiriannau myfyrwyr.

(d) Dylid gofyn i'r Gweinidog i gyflwyno tystiolaeth yr asesiad a gynhaliwyd i ymchwilio i'r dull o fodloni'r Strategaeth Iaith gyfredol yn y cyswllt hwn a pha reswm dilys sydd dros beidio â rhoi'r hawl i fyfyrwyr gael yr un adnoddau â staff y corff drwy gyfrwng y rheoliadau hyn. Os nad oes rheswm, rhaid diwygio'r agwedd hon.

- v) Mae'r Llywodraeth yn parhau i anwybyddu'r anghydraddoldeb rhwng hawliau iaith myfyrwyr a staff y corff mewn perthynas â rhoi **gwersi Cymraeg i fyfyrwyr** ac o ran **meithrin ymwybyddiaeth ynghylch y Gymraeg a'i diwylliant**. Gan fod swyddogaeth ganolog i'r sector addysg uwch ac addysg bellach wrth godi cenedl ddwyieithog a chynllunio gweithlu'r dyfodol, mae hyn yn anfaddeuol. Mae nifer o sefydliadau addysg eisoes yn cynnwys nifer o fodiwlau gorfodol fel rhan o'u proses ymrestru a chynefino – megis ymwybyddiaeth o beryglon tân, materion iechyd a lles ayyb; dichon y gallai'r cyrff mawr hyn ddarparu pwt am y Gymraeg a'i diwylliant fel rhan o weithgareddau o'r fath yn rhwydd.

(e) Dylid mynnu bod Safonau 140 a 141 y safonau gweithredu o fewn y rheoliadau diweddaraf hyn (ymwybyddiaeth iaith sylfaenol i staff) yn cael eu cymhwyso i fyfyrwyr yn ogystal â staff fan leiaf.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

1. UCM Cymru

- 1.1. Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) yw'r mudiad democrataidd mwyaf yng Nghymru sy'n cynrychioli dysgwyr mewn ystod eang o sefyllfaoedd, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg gymunedol i oedolion a phrentisiaethau.

2. Sylwadau Cyffredinol

- 2.1. Rydym yn croesawu'r cyfle i roi ymateb ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg.
- 2.2. Cred UCM Cymru y dylai addysg fod yn gynhwysol; hynny yw y gall y myfyrwyr oll gael mynediad i addysg a chael llwyddiant, beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion. Yng Nghymru, y mae'n rhaid i addysg gynhwysol gynnwys y gallu i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan rydyn yn sôn am addysg gyfrwng Cymraeg golygw'n nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth ond hefyd fod myfyrwyr yn gallu byw trwy gyfrwng y Gymraeg tra'n astudio; o seminarau i lety myfyrwyr, ac o gefnogaeth myfyrwyr i adnoddau digonol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.3. Teimlwn y dylai'r safonau iaith sicrhau fod gan fyfyrwyr yng Nghymru yr hawl at fynediad i addysg gyfrwng Cymraeg er mwyn iddynt allu defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywyd yn y coleg, y brifysgol neu tra'n gwneud prentisiaeth.
- 2.4. Yn 2016 roedd undebau myfyrwyr yn pryderu nad oedd y rheoliadau'n ddigon cryf i allu sicrhau addysg gynhywsol ac mai'r unig ffordd i ddylanwadu ar y safonau oedd galw iddynt gael eu gwrthod, fel y digwyddodd. Tra ein bod yn falch fod hyn wedi sicrhau mwy o amser i wella'r rheoliadau, yn y dyfodol hoffem weld strwythurau cryfach mewn lle i allu craffu ar y rheoliadau fel nad oes angen rhwystro'r rheoliadau unwaith yn rhagor.

3. Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

- 3.1. Rydym yn falch iawn o weld bod yr eflennau canlynol wedi eu hychwanegu at y rheoliadau canys eu bod yn hanfodol er mwyn galluogi i fyfyrwyr allu byw trwy gyfrwng y Gymraeg tra yn astudio:

Hawl i weld arwyddion ar adeiladau'r corff yn Gymraeg
Hawl i fynegi dymuniad i gael llety myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
Hawl i Fewnrwyd myfyrwyr cyfrwng Cymraeg
Hawl i'r Gymraeg mewn canolfannau celfyddydau
Hawl i diwtor personol sy'n siarad Cymraeg

- 3.2. Er hyn, y mae yna dal i fod elfennau yr ydym yn teimlo sydd ar goll o'r rhestr ym mharagraff 31. Y mae'n anochel bron y bydd eflennau ar goll pan roddir rhestr gyfyngedig. Hoffem felly weld fod y rhestr yn cyfleu yr egwyddor y dylai

myfyrwyr gael mynediad at addysg Gyrraeg gynhwysol a bod yr elfennau a nodir yn y rhestr yn cyfleu y lleiafswm y dylid ei ddarparu. Hoffem hefyd weld yr eflennau canlynol yn cael eu hychwanegu:

- 1) gohebiaeth bersonol i fyfyrwyr
- 2) prosesau talu ffioedd myfyrwyr
- 3) cofnodion myfyrwyr
- 4) y broses o geisio am ysgoloriaethau

3.3. Credwn y dylai myfyrwyr allu cael mynediad at wersi Cymraeg er mwyn i bob myfyriwr gael cyfle i ddysgu a gwella eu Cymraeg. Hoffem weld mwy o sylw yn cael ei roi i'r elfen yma – yn enwedig gan ei fod yn cefnogi amcan Llydoraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.4. Mae'r term 'lles myfyrwyr' yn un eang iawn. Tra nad ydym am weld y diffiniad yn cael ei ddileu o'r rhestr nac yn cael ei gyfyngu, byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw arbennig at y gwasanaethau canlynol:

Cymorth ariannol
Gwasanethau cwnsela
Cymorth tai
Cymorth i fyfyrwyr gydag anableddau
Systemau cymorth cyfoedion

3.5. Rydym yn gobeithio y bydd Llydoraeth Cymru yn parhau i ddatblygu darpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-orfodol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Dyddiad: 18 Ionawr 2017
Amser: 10:00-12:00
Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
Teitl: Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Ymchwiliad Strategaeth Iaith Gymraeg
Diben: Darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'r Ymchwiliad Strategaeth Iaith Gymraeg

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Ar ddechrau tymor y pumed Cynulliad, gosododd y Llywodraeth her sylweddol i'w hun i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi datgan y bydd yr weledigaeth yma'n gofyn am ffordd newydd o weithio er mwyn ei gwireddu. O ystyried maint yr her, rydym ni'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am gymryd amser i gynnal yr ymchwiliad yma ac i fwydo i fewn i'r broses o greu'r strategaeth derfynol i lywio ein taith at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ein strategaeth ddrafft i ben yn swyddogol ar 31 Hydref 2016. Ers diwedd yr ymgynghoriad, rydym ni wedi bod yn dadansoddi'r holl ymatebion a'u defnyddio wrth weithio tuag at siapio a mireinio'r strategaeth derfynol. Fel rhan o hynny, rydym ni wedi llunio crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'n bleser gen i gynnwys copi o'r crynodeb yn Atodiad 1 y papur yma at sylw'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyhoeddi'r crynodeb o ymatebion, byddwn yn parhau i ddatblygu a mireinio ein strategaeth derfynol. Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i dalu sylw at ymatebion ein hymgyngoriad ac yn sicr, rydym yn edrych ymlaen at weld ffrwyth gwaith ymchwiliad y Pwyllgor i'n cynorthwyo yn bellach.



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft
Llywodraeth Cymru: miliwn o
siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

Cynulleidfa	Grwpiau Llywodraeth Cymru; cyrff cyhoeddus yng Nghymru; cyrff y trydydd sector yng Nghymru; cwmnïau y sector preifat yng Nghymru; sefydliadau addysgol yng Nghymru; sefydliadau sy'n gweithio i hybu'r defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc, a chymunedau; a phartion eraill â diddordeb.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 1 Awst a 31 Hydref 2016.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	I gael rhagor o wybodaeth: Uned y Gymraeg Is-Adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@cymru.gsi.gov.uk Ffôn: 0300 060 4400
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/strategaeth-y-gymraeg
Dogfennau cysylltiedig	<i>Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (2016)</i>

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Dulliau ymgysylltu	2
Ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc	3
Fersiwn hawdd ei deall	3
Cyfarfodydd gyda phartneriaid/rhanddeiliaid	3
SaysomethinginWelsh	3
Cynhadledd #Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr	3
Grwpiau ffocws: Cylchoedd Ti a Fi	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith	7
Maes datblygu 2: Normaleiddio	8
Maes datblygu 3: Addysg	10
Maes datblygu 4: Pobl	11
Maes datblygu 5: Seilwaith	14
Maes datblygu 6: Hawliau	15
Blaenoriaethau	17
Sylwadau eraill	19
Casgliad	21
Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr	22
Atodiad 2: Sefydliadau a dderbyniodd wahoddiad uniongyrchol i gynhadledd #Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr	26
Atodiad 3: Crynodeb o ymatebion holiadur doopoll cynhadledd #Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr	27
Atodiad 4: Trosolwg o ymatebion grwpiau ffocws cylchoedd Ti a Fi	29

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Adran 78(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i fabwysiadu strategaeth sy'n dangos sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. O ganlyniad i'r dyletswydd yma, cyhoeddwyd y strategaeth iaith fyw: iaith byw fu'n weithredol o 1 Ebrill 2012. Daw cyfnod strategaeth iaith fyw: iaith byw i ben ar 31 Mawrth 2017. Mae Adran 78(5) y Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar eu strategaeth. O ganlyniad i hyn, lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus ar ein gweledigaeth newydd a thra heriol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 1 Awst ac fe ddaeth i ben ar 31 Hydref.

Cydnabyddom faint yr her sydd wedi ei gosod i Gymru gyfan yn y strategaeth ddrafft. Cofnodwyd mai ar sail y cyfrifiad, y byddai angen oddeutu 438,000 o siaradwyr Cymraeg newydd erbyn 2050. Gan hynny, bu cydnabyddiaeth yn y strategaeth ddrafft bod angen gweithio mewn ffordd wahanol i wireddu'r weledigaeth.

Yn wahanol i strategaethau blaenorol Llywodraeth Cymru, roedd y strategaeth ddrafft yn cydnabod bod cynllunio ieithyddol yn ddisgyblaeth hirdymor. Esboniwyd yn y strategaeth ddrafft y meysydd ble fyddai angen gweithredu dros y tymor hir er mwyn cyrraedd y targed. Gan hynny, rhoddwyd yr amcanion o dan y chwe maes datblygu canlynol:

- 1: Cynllunio a pholisi iaith
- 2: Normaleiddio
- 3: Addysg
- 4: Pobl
- 5: Cefnogi
- 6: Hawliau

Tra'n cydnabod yr angen i gynllunio a gweithredu dros y tymor hir i gyrraedd y nod, roedd y strategaeth ddrafft hefyd yn cydnabod yr angen i weithredu yn y tymor byr. Gan hynny, amlinellwyd meysydd gwaith posib dros bum mlynedd cyntaf y strategaeth ddrafft, ac ymgynghorwyd ar y manau y dylid blaenoriaethu yn y tymor byr.

Dulliau ymgysylltu

Yn rhagair y Gweinidog i'r ddogfen ymgynghori, nododd y Gweinidog bwysigrwydd sicrhau bod pawb yn perchnogi'r her sydd nghlwm â'r strategaeth ddrafft. Yn ogystal, fe nododd ei ddymuniad i'r genedl gyfan fod yn rhan o'r drafodaeth wrth lywio a siapio'r strategaeth derfynol.

Wrth ymgynghori, yn ogystal â chyhoeddi dogfen ymgynghori swyddogol gan ofyn cwestiynau penodol (ymhelaethir ar hyn ar dudalen 5 y ddogfen hon), defnyddiwyd llu o ddulliau gwahanol mewn ymgais i ddenu ymatebion gan gynulleidfaoedd amrywiol. Bydd hyn yn ein cynorthwyo ni i siapio'r strategaeth derfynol. Ymhelaethir ar y dulliau yma isod.

Ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc

Datblygwyd ffeithlun a fideo animeiddiedig ar gynnwys y strategaeth ddrafft, yn ogystal â phhecyn adnoddau er mwyn cynorthwyo ac ysgogi plant a phobl ifanc i ymateb. Cysylltom ni gyda phartneriaid grant y llywodraeth a sefydliadau sy'n cynnwys ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses ymgynghori. Yn ogystal, cynhaliodd Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes sgwrs â phlant a phobl ifanc ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol eleni gan gynnwys trafodaeth am y strategaeth ddrafft.

Fersiwn hawdd ei deall

I sicrhau cyfraniad unigolion ag anableddau dysgu i'r broses ymgynghori, datblygom fersiwn hawdd ei deall o'r ddogfen ymgynghori. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws wedi eu trefnu ar y cyd gydag Anableddau Dysgu Cymru a Phobol yn Gyntaf Caerfyrddin. Gofynnwyd cwestiynau penodol i'r grwpiau yma i'w hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad ac ymgorfforwyd sylwadau'r grwpiau i'r crynodeb o ymatebion sydd i'w gael yn y ddogfen yma.

Cyfarfodydd gyda phartneriaid/rhanddeiliaid

Yn ogystal â'r digwyddiadau a drafodir y tu allan i'r paragraff yma, yn ystod y cyfnod ymgynghori, trafodwyd y strategaeth ddrafft mewn digwyddiadau a chyfarfodydd ag unigolion ar draws Cymru gyda Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a'i swyddogion. Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfarfodydd yma fel rhan o'r broses ymgynghori ac fe ystyriwyd y sylwadau ddaeth i law yn y cyfarfodydd fel rhan o'r crynodeb o ymatebion yn y ddogfen hon.

SaysomethinginWelsh

O ystyried y nifer o bobl sy'n mynd ati i ddysgu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, trwy gydweithio gyda SaysomethinginWelsh, cynhaliom drafodaeth ar eu fforwm ar-lein i hel sylwadau ar y strategaeth ddrafft. Rydym wedi cynnwys prif themâu'r trafodaethau yng nghrynodeb ymatebion y ddogfen hon.

Cynhadledd #Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym wedi edrych tu hwnt i ffiniau Cymru i ddysgu gwersi o Wlad y Basg a Chanada. Gan hynny, fe gynhaliom gynhadledd ryngwladol '#Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 4 Hydref.

Yn ogystal â hyrwyddo'r digwyddiad yn gyffredinol ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar draws y llywodraeth, anfonwyd gwahoddiadau penodol i'r gynhadledd at y sefydliadau sydd wedi eu nodi yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

Mynychodd 85 o bobl y gynhadledd. Fodd bynnag, defnyddiwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru i ganiatáu i bawb dros Gymru a thu hwnt gymryd rhan yn y digwyddiad.

Gofynnwyd cwestiynau ar-lein yn ystod ac am gyfnod yn dilyn y gynhadledd drwy ddefnyddio holiadur electronig Doopoll fel modd o ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr ymgynghoriad. Caniataodd y system yma i ni ofyn cwestiynau i bobl ar ffurf ateb aml-ddewis (heb fod cyfle i gyfranwyr ychwanegu atebion eu hunain) ac ateb trwy raddfa.

Er bod Doopoll wedi bod yn ffordd hygyrch a defnyddiol i roi blas o agweddau pobl tuag at gwestiynau a gosodiadau, nid oedd yn caniatáu i bobl ddarparu atebion llawrydd, nac ychwaith yn ein caniatáu i asesu demograffeg y rhai gymerodd ran. Yn ogystal, gallai canlyniadau'r poliau fod wedi'u dylanwadu gan broffil demograffeg mynychwyr y gynhadledd. O ganlyniad, nid ydym yn honni unrhyw sail wyddonol i'r data a gasglwyd. Er hynny, fe gynhwysir yn Atodiad 3 grynoded o ganlyniadau'r holiadur.

Grwpiau ffocws: Cylchoedd Ti a Fi

Mae'r strategaeth ddrafft yn cadarnhau pwysigrwydd cynyddu cyfraddau trosglwyddo mewn teuluoedd a phwysigrwydd cynyddu'r niferoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. I'r perwyl yma felly, gwnaed ymgais benodol fel rhan o'r broses ymgynghori i gasglu barn rhieni/gofalwyr plant.

Cynhaliom bedwar grŵp ffocws trwy gydweithrediad Mudiad Meithrin. Cynhaliwyd y pedwar grŵp yng Nghylchoedd Ti a Fi Hermon, Cyncoed, Seiont a Pheblig (Caernarfon) a Llanelwy. Casglwyd yr ymatebion yn Hermon, Cyncoed a Llanelwy ar ffurf sgysiau un-wrth-un gyda rhieni ac fe gynhaliwyd grŵp trafod yng Nghaernarfon.

Ar draws y pedair sesiwn, cymrodd 26 unigolyn ran trwy ateb cwestiynau. O'r 26 unigolyn, cyfrannodd 14 ohonynt yn Gymraeg a 12 ohonynt yn Saesneg. Gofynnwyd cwestiynau penodol i'r mynychwyr a chasglwyd y sylwadau. Mae'r cwestiynau a ofynnwyd ynghyd â throsolwg o'r ymatebion i'w gweld yn Atodiad 4.

Crynodeb o'r ymatebion

Gofynnwyd ni 13 o gwestiynau penodol i bobl yn ein dogfen ymgynghori swyddogol. Ymatebodd y nifer helaeth o ymatebwyr yn defnyddio'r ffurflen ymateb swyddogol neu'r fersiwn electronig ohoni. Darparwyd ymatebion gan rai cyrff ar ffurf llawrydd. Prif-ffrydiwyd yr ymatebion yna i'r broses o ddadansoddi ymatebion i greu'r crynodeb isod. Rhoddir canlyniadau'r¹ cwestiynau isod ynghyd â throsolwg o brif themâu'r sylwadau yn yr ymatebion. Wrth ddatblygu'r strategaeth derfynol, byddwn yn rhoi sylw i holl ymatebion yr ymgynghoriad yn eu cyfanrwydd gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r sylwadau o fewn yr ymatebion i lywio'r gwaith o greu'r strategaeth derfynol.

Cyhoeddir unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol yn yr iaith y cawsant eu cyflwyno gan ymatebwyr.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno gyda'r dull o greu strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg?

Cyfanswm	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
238	178 (74.8%)	44 (18.5%)	16 (6.7%)

Prif themâu'r sylwadau

Cytunodd y rhan helaeth o ymatebwyr gyda natur hirdymor y strategaeth ddrafft.

'Mae gosod gweithgareddau polisi a chynllunio iaith o fewn ffrâm newid sy'n rhychwantu cenhedlaeth – a thu hwnt i'r cylch etholiadol gwleidyddol – i'w gefnogi'.

- Cynllunwyr Iaith Cymru

Ar yr un adeg, bu trafodaeth mewn sawl ymateb ynghylch ymarferoldeb cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg fel targed y strategaeth. Bu cydnabyddiaeth i faint yr her a osodwyd i'r Llywodraeth ei hun yn y strategaeth ddrafft ond yn gyffredinol, croesawyd yr her gan yr ymatebwyr. Yn ogystal, bu ffocws sawl ymateb ar agwedd strategol y strategaeth ddrafft, a'r angen i amlygu'r cysylltiad rhwng y strategaeth ddrafft ac un o nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Tra'n croesawu'r her, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd gweithredu buan a dwys yn y tymor byr er mwyn gosod y seiliau i'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr allu digwydd dros yr hirdymor.

Bu i nifer o ymatebwyr hefyd rybuddio na ddylai'r nod o greu miliwn o siaradwyr, gan gydnabod pwysigrwydd y system addysg, fod ar draul ymdrechion i hybu a chynnal defnydd o'r Gymraeg ymhlith y rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg. Teimla rai ymatebwyr nad oedd y strategaeth ddrafft yn ymdrin yn ddigonol gyda'r agwedd hon o gynllunio ieithyddol.

Teimla eraill nad oedd yr agwedd ddaearyddol o gynllunio ieithyddol wedi ei hamlygu'n ddigonol yn y strategaeth ddrafft, gyda rhai yn nodi fod yr heriau yn yr ardaloedd dwysedd uchel o siaradwyr yn wahanol i'r heriau mewn ardaloedd dwysedd isel, a bod angen i'r strategaeth gydnabod a chofleidio hynny.

¹ Er mwyn hwyluso cyflwyno'r data, talgrynnir y canrannau i 1 lle degol. O ganlyniad, nid yw'r canlyniadau o reidrwydd yn hafal i 100%.

Fodd bynnag, nid oedd pob ymatebydd i'r cwestiwn yma'n gefnogol i'n gweledigaeth na'r strategaeth ddrafft. Cafwyd sylwadau oedd yn mynegi pryder yn gysylltiedig â chyflwyno'r Gymraeg i'r di-Gymraeg yn ogystal â phryderon am wariant ar y Gymraeg yn ystod cyfnod economaidd anodd gyda gwariant cyhoeddus yn crebachu.

Cwestiwn 2: Ar wahân i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, does dim targedau penodol ynghlwm wrth y strategaeth ddrafft hon ar hyn o bryd. Yn eich barn chi, a oes unrhyw dargedau neu gerrig milltir penodol y dylid eu defnyddio er mwyn mapio'r siwrne a mesur ein cynnydd tuag at filiwn o siaradwyr?

Cyfanswm	Oes	Nac oes	Ddim yn siŵr
235	154 (65.5%)	54 (23%)	27 (11.5%)

Prif themâu'r sylwadau

Wrth ateb y cwestiwn yma, roedd y rhan helaeth o ymatebwyr yn credu bod angen targedau a cherrig milltir ychwanegol yn y strategaeth ddrafft yn ogystal â'r prif darged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fodd bynnag, nid oedd ymatebion i'r cwestiwn yn unfrydol. Nododd rai nad oeddynt yn credu y dylid gosod targedau a cherrig milltir.

Ymysg y rhesymau dros gynnwys targedau oedd sicrhau bod modd cadw golwg a chraffu ar gynnydd wrth roi'r strategaeth derfynol ar waith.

Derbyniwyd argymhellion gan ymatebwyr o ran y targedau a cherrig milltir posib y gellid eu cynnwys yn y strategaeth i fapio'r daith at filiwn o siaradwyr Cymraeg. Ymysg eraill, argymhellwyd targedau gan ymatebwyr oedd yn ymdrin â gweithlu'r sector addysg, gweithlu'r sector cyhoeddus, lefelau rhuglder, defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, modelau rhanbarthol, cyrsiau addysg bellach ac uwch cyfrwng Cymraeg a maint y ddarpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno'n gyffredinol â'r chwe maes datblygu a amlinellir yn y strategaeth – sef Cynllunio, Normaleiddio, Addysg, Pobl, Cefnogi, a Hawliau?

Cyfanswm	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
231	142 (61.5%)	58 (25.1%)	31 (13.4%)

Prif themâu'r sylwadau

Cafwyd cymysgedd o ymatebion i'r cwestiwn yma. Er i ganran uchel o bobl nodi eu bod yn cytuno gyda'r meysydd (fel sydd wedi ei gofnodi uchod), cofnodwyd nifer o sylwadau gan ymatebwyr oedd yn dymuno gweld y llywodraeth yn glynu at y meysydd strategol oedd wedi'u cynnwys yn y strategaeth gyfredol: laith fyw: laith byw.

'O ran cysondeb ac o bosib medru adrodd ar gynnydd, tybed pam nad oedd y meysydd datblygu yn laith Byw: laith Fyw yn addas ar gyfer y strategaeth hon hefyd: sef Y teulu, Plant a Phobl Ifanc, Y Gymuned, Y Gweithle, Gwasanaethau Cymraeg, Y Seilwaith. Gan fod maes polisi cynllunio

ieithyddol yn dal i fod yn faes cymharol newydd, mae'n bwysig sefydlu cysondeb, fel bod cynllunwyr polisi yn dod yn gyfarwydd gyda'r penawdau, a'r gofynion ynghlwm wrth hynny. Mae'r tabl ar ddechrau'r ddogfen "laith fyw: laith byw - Bwrw Ymlaen" yn ddefnyddiol 1. Caffael yr laith (Addysg, trosglwyddo iaith) 2. Defnyddio'r laith (plant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithle, gwasanaethau Cymraeg) 3 Y Seilwaith (yn cynnwys economi)'.

- Cyngor Sir Ceredigion

Bu nifer o ymatebwyr o'r farn bod y meysydd yn y strategaeth ddrafft yn ddryslyd ac yn rhy benagored, a nododd eraill nad oeddent yn glir ynghylch ar ba sail cysyniadol, o safbwynt cynllunio ieithyddol, y dewiswyd y meysydd datblygu hyn.

'Mae galw am ailedrych yn fanwl ar natur y meysydd datblygu sy'n darparu strwythur y strategaeth ac a fydd yn cyfeirio gweithgaredd i'r dyfodol. Nid oes digon o eglurder yn perthyn i'r modd y caiff y meysydd a gyflwynir yn y drafft ymgynghorol eu cysyniadoli ac o ganlyniad mae cryn amwysedd ynglŷn â pa fath o weithgaredd sy'n berthnasol i'r meysydd hyn'.

- Canolfan Gwleidyddiaeth a
Chymdeithas Cymru, Prifysgol
Aberystwyth

Yn ogystal, bu nifer o sylwadau yn argymhell cynnwys meysydd strategol ychwanegol yn y strategaeth derfynol i fynd i'r afael â meysydd eraill megis addysg bellach, arweinyddiaeth, yr economi, cynllunio gwlad a thref ac yn y blaen.

Cwestiwn 4: Sut allwch chi gyfrannu at gyflawni'r weledigaeth sydd yn y strategaeth?

Prif themâu'r sylwadau

Cafwyd ymatebion cadarnhaol gan y rhan fwyaf o bobl i'r cwestiwn yma. Gwelwyd ymrwymadau personol ymysg yr ymatebwyr oedd yn ymateb fel unigolion ac ymrwymadau corfforaethol gan sefydliadau ar draws Cymru o ystod eang o sectorau gwahanol yn nodi meysydd gwaith posib y maent, ac y gallant, ganolbwyntio arnynt dros gyfnod y strategaeth derfynol i weithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Maes datblygu 1: Cynllunio a pholisi iaith

Cwestiwn 5: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella cynllunio mewn perthynas â'r Gymraeg?

Cyfanswm	Oes	Nac oes	Ddim yn siŵr
214	119 (55.6%)	44 (20.6%)	51 (23.8%)

Prif themâu'r sylwadau

Roedd cefnogaeth yn yr atebion i'r amcan o fewn y strategaeth ddrafft i gynyddu maint gweithlu'r sector addysg â sgiliau Cymraeg ar draws pob rhan o'r sector. Yn ogystal â sylwadau am gynyddu nifer y staff dysgu gyda sgiliau Cymraeg, rhoddwyd sylw ymysg rhai ymatebion i'r angen i gynllunio a hyfforddi cyflenwad digonol o staff ategol gyda sgiliau Cymraeg (megis aseswyr). Ymysg yr atebion, rhoddwyd sylw penodol gan rai i'r gweithlu ym maes y blynyddoedd cynnar.

'PACEY Cymru would like to see all early years and childcare practitioners be offered and encouraged to access basic Welsh training, tailored to their need.'

- PACEY Cymru

Tu hwnt i drafod cynllunio a chynyddu maint gweithlu'r sector addysg, cafwyd sylwadau yn yr ymatebion yn gysylltiedig â gweithlu'r sector gofal. Trafodwyd y Gymraeg fel sgil, a'r angen i weld y sgil yn gyfartal â sgiliau eraill wrth asesu a darparu gwasanaethau gofal.

Yn eu hymatebion, cafwyd nifer o gyfeiriadau at sut mae normaleiddio ac ymgorffori'r Gymraeg o fewn cynllunio. Nododd UCAC y dylid creu strwythurau penodol i ledaenu dealltwriaeth o hanfodion cynllunio ieithyddol ymysg cyrff mawr y sector cyhoeddus a'r byd busnes. Yn ogystal, trafododd UCAC bwysigrwydd datblygu arweinwyr ymysg grwpiau pwysig a dylanwadol, yn eu hachos nhw, trafodwyd llywodraethwyr. Roedd pwysigrwydd datblygu arweinyddiaeth i weithredu'r strategaeth ddrafft hefyd yn glir yn ymateb Cyngor Gofal Cymru:

'We would recommend the inclusion of leadership as an additional area, or aligned to people/rights.'

Wrth ateb y cwestiwn yma, aeth nifer o ymatebwyr ar drywydd trafod pwysigrwydd yr economi wrth weithio i gyrraedd amcanion y strategaeth ddrafft. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ymgysylltu gyda busnesau gan ymatebwyr, a chrybwyllwyd ystyried yr economi fel maes datblygu penodol gan Awr Cymru.

'Nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at rôl sylfaenol yr economi wrth gynnal hyfywedd iaith ac nid oes cyfeiriad ynddi at fudoledd poblogaeth – yn allfudo a mewnfudo – a'i ddylanwad ar hyfywedd y Gymraeg'.

- Cynllunwyr Iaith Cymru

Maes datblygu 2: Normaleiddio

Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, sut arall allwn ni wella ewyllys da at y Gymraeg er mwyn ei 'normaleiddio' ymhellach?

Cwestiwn 7: Beth arall sydd ei angen er mwyn trosi'r agweddau da sydd gan bobl at y Gymraeg yn siaradwyr?

Gan fod cwestiwn 6 a 7 yn ymdrin â'r un maes datblygu, rydym wedi ymdrin â'r ddau gwestiwn fel un at ddibenion yr adroddiad yma.

Prif themâu'r sylwadau

Mynegodd sawl ymatebydd anghydfod ynghylch cynnwys y term 'normaleiddio' yn y strategaeth ddrafft:

'I do not particularly like the term 'Normalisation' as it suggests that speaking Welsh is currently abnormal. I do not consider myself to be abnormal'

- Kenneth Jones

Yn ogystal â thrafod addasrwydd y term ei hun, cafwyd ymatebion oedd yn nodi na ddylid ymdrin â defnydd o'r Gymraeg fel elfen ynddi ei hun. Yn hytrach, crybwyllwyd y dylid ystyried defnydd drwyddi draw yn y strategaeth ddrafft o fewn pob un maes datblygu.

Yn yr ymatebion i'r cwestiynau yma, ymdriniwyd â'r ffactorau sy'n effeithio ar ddewisiadau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ai peidio gan ymatebwyr. Rhoddwyd cryn sylw i'r angen i weithio tuag at greu sefyllfa lle'i bod hi'n arferol clywed a defnyddio'r Gymraeg a hynny ym mhob agwedd o fywyd.

Gan hynny, rhoddwyd sylw i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu gan gyrff cyhoeddus. Trafodwyd pwysigrwydd y cynnig rhagweithiol yn y cyd-destun yma, ynghyd â'r hyn y dylid ei wneud i greu a meithrin awyrgylch ac ethos dwyieithog. Trafodwyd rôl y Gymraeg ar draws nifer o sectorau a phwysigrwydd cynyddu gwelededd y Gymraeg yn gyffredinol ac ym myd busnes a thwristiaeth yn benodol er mwyn ei normaleiddio.

Yn ogystal, trafodwyd normaleiddio o ogwydd seicolegol, a'r effeithiau y mae amgylcheddau amrywiol yn eu cael ar ddewisiadau iaith pobl. Rhoddwyd cynigion gan sawl ymatebydd yn crybwyll meysydd y dylid eu hystyried ar gyfer gwaith ymchwil i ddeall y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau pobl wrth ddewis siarad un iaith dros y llall.

Wrth ymdrin â defnydd o'r Gymraeg, pwysleisiwyd gan rai y dylid rhoi ystyriaeth ddigonol o ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant ac hanes sy'n cyd-fynd â'r iaith o fewn y strategaeth derfynol. Nododd un ymatebydd:

'...training events were given which consisted of an introduction to Welsh history, culture and language. This had a positive effect on attendees who hitherto were ignorant of the status of Welsh and its culture and their goodwill towards Welsh was engendered. It is for our public bodies to train their staff to create positive attitudes'.

Tu hwnt i'r uchod, bu cydnabyddiaeth yn yr ymatebion o'r rôl y dylai marchnata a hyrwyddo ei chwarae o ran trosglwyddo negeseuon am fanteision y Gymraeg a dwyieithrwydd yng Nghymru. I'r perwyl yma, nododd Dyfodol i'r iaith:

'Mae ennill cefnogaeth pobl Cymru i'r ymdrech i adnewyddu'r Gymraeg yn gwbl angenrheidiol. I'r diben hwn, mae angen rhoi ar waith raglen eang ac amlweddog i addysgu'r boblogaeth ynghylch manteision dwyieithrwydd a phwysigrwydd y Gymraeg i ddatblygiad y genedl'.

Cafwyd trafodaeth yn ogystal mewn rhai ymatebion o bwysigrwydd sicrhau bod y

gwaith yma'n targedu cymunedau ethnig amrywiol ynghyd â phobl gydag anghenion gwahanol.

Maes datblygu 3: Addysg

Cwestiwn 8: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg?

Cyfanswm	Oes	Nac oes	Ddim yn siŵr
210	120 (57.1%)	38 (18.1%)	52 (24.8%)

Prif themâu'r sylwadau

Wrth ymdrin â'r cwestiwn yma, rhoddwyd sylw sylweddol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ateb y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, nid wrth ateb y galw yn unig yr oedd rhai yn meddwl y gellid cynyddu'r nifer sy'n dysgu Cymraeg:

'mae angen creu galw am addysg Gymraeg yn hytrach na dim ond ymateb i'r galw'

- Cyngor Sir Gâr

Rhoddwyd sylw gan rai i bwysigrwydd cynnwys holl ysgolion Cymru yn yr ymgais i gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu Cymraeg. Trafodwyd gweithio i gynyddu'r cydweithio sydd rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r ysgolion cyfrwng Saesneg, a'r broses o ailgategorieddio ysgolion. Wrth edrych ar strwythurau ysgolion, trafodwyd yn ogystal yr angen i roi sylw digonol i'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol megis hwyrdyfodiaid a phobl gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Tu hwnt i strwythur y ddarpariaeth addysg, trafodwyd rôl y cwricwlwm cenedlaethol wrth gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu Cymraeg. Soniwyd am gyflwyno continwmm ieithyddol ar gyfer holl ysgolion Cymru a chymreigio agweddau eraill o'r cwricwlwm gan dynnu sylw at ddiwylliant a hanes Cymru a'r Gymraeg.

'Provide more Education on the history of our language and heritage – show why it is important that we retain and grow the language as part of our culture'

- Jeremy Randles

Roedd cryn dipyn o'r sylwadau i'r ymgynghoriad yn nodi'r angen i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i'r cyfnod statudol mewn addysg bellach ac addysg uwch i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl barhau gyda'u haddysg trwy'r Gymraeg. Roedd sylwadau hefyd yn ymwneud â sut mae denu pobl i gyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg bellach ac uwch ynghyd â'r gwaith y dylid ei gyflawni i sicrhau taith glir i fyfyrwyr trwy'r system addysg i swyddi ble mae angen sgiliau Cymraeg yn y byd gwaith.

Rhoddwyd sylw yn y darn yma'n ogystal i'r ffyrdd y mae pobl yn mynd ati i ddysgu'r Gymraeg fel oedolion. Nododd rai ymatebwyr y dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg ddarparu cyfleoedd i oedolion gyda'u plant yn yr ysgol i ddysgu Cymraeg:

'We agree that Welsh speaking homes have a great impact on the use of Welsh. Every effort should be made to support parents who wish to learn Welsh eg by provision for adult learning at local Welsh medium schools'.
- Cymdeithas Gymreig Woking

Maes datblygu 4: Pobl

Cwestiwn 9: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio Cymraeg?

Cyfanswm	Oes	Nac oes	Ddim yn siŵr
203	93 (45.8%)	53 (26.1%)	57 (28.1%)

Prif themâu'r sylwadau

Tra bod cefnogaeth gyffredinol i'r ffocws ar bobl yn y ddogfen ddrafft, roedd ambell i ymatebwr yn gweld bod y maes Pobl yn ceisio gwneud gormod o bethau. Er enghraifft:

'Tra bod yr egwyddor o bennu meysydd datblygu i'w groesawu, mae'r meysydd a gynigir yn ddogfen yn rhy benagored ac yn rhy eang. Er enghraifft, mae adran "Pobl" yn y ddogfen bresennol yn cwmpasu meysydd mor eang â chaffael iaith drwy'r system addysg statudol a gydol oes, trosglwyddiad iaith o fewn y teulu a chyfluoedd cymunedol i ddefnyddio'r iaith a thrwy hynny yn ceisio ymdrin â gormod o faterion'.

-Mudiadau Iaith Cymru

Adlewyrchwyd hyn gan sawl ymatebydd, gyda nifer hefyd yn gweld bod y maes Cynllunio a Pholisi Iaith hefyd yn rhy benagored, a bod y cynnwys yn gorgyffwrdd yn ormodol â meysydd eraill yn y ddogfen. Roedd rhai hefyd o'r farn bod dryswch yn yr adran hon rhwng siaradwyr a defnyddwyr.

Ystyr cymuned

Heb os nac oni bai, achosodd y datganiad yn y ddogfen ddrafft bod angen 'Gwella ein dealltwriaeth o'r ffactorau lleol sy'n effeithio ar y Gymraeg, ac o'r drafodaeth ynghylch sut mae'r diffiniad o 'gymuned' yn esblygu, a chynllunio'n unol â hynny' gryn ymateb. Er bod cytundeb gyffredinol bod angen ehangu'r drafodaeth ynghylch perthynas y Gymraeg â gwahanol fathau o gymunedau, a chydabyddiaeth bod cymunedau a'r diffiniad ohonynt yn esblygu'n barhaus, roedd nifer o'r ymatebion yn pwysleisio pwysigrwydd parhau i roi ffocws ar gymuned yn ystyr ddaearyddol y gair:

'O ran ystyr cymuned, oes, mae'n rhaid edrych yn ehangach na'r diffiniad traddodiadol. Rhaid cynnwys rhwydweithiau diddordeb a digidol, cymunedau ar sail gweithle – yn ogystal â chymunedau daearyddol (pentrefol/trefol/dinesig)'.

- UCAC

'Whilst we do not disagree with the analysis about new forms of community, "geography" is still a key driver of social interaction.

Within geographical communities decisions about what types of development, their scale and location can have an important influence on language

maintenance and acquisition, and this again reinforces the need for stronger links between socio-language planning and spatial planning’.

- RTPI Cymru

‘Teimlwn fod y cysyniad o gymuned yn dal i fod yn ddilys mewn ardaloedd gwledig a bod yn rhaid dal ati neu gryfhau’r gwaith o gefnogi’r cymunedau hyn yn ieithyddol. Mae’n wir hefyd fodd bynnag bod y syniad o gymuned yn wahanol mewn ardaloedd mwy poblog ond, ar gyfer y ddau fath o gymuned, mae angen cefnogaeth a datblygiadau deinamig a phendant i sefydlogi a chynyddu defnydd y Gymraeg.’

- Cyngor Sir Gâr

‘Cydnabyddir fod yr hyn a ystyrir yn ‘gymuned’ bellach wedi newid, ymestyn, ac yn gysyniad anodd i’w ddiffinio, ond rhaid gochel rhag dibrisio gwerth ac arwyddocâd cymuned ‘ddaearyddol’ sydd yn dod â phobl ynghyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yma, y caiff seiliau hunaniaeth a gwerthoedd siaradwyr Cymraeg eu gosod, arweinwyr cymunedol eu meithrin, yma y rhoddir cyfle i arfogi siaradwyr Cymraeg i gynnig arlwy o weithgareddau a digwyddiadau cyfoes a deniadol sydd yn gwneud y Gymraeg fel norm mewn cyd-destun anffurfiol braf. Mewn geiriau eraill, byw bywyd yn bennaf trwy’r Gymraeg.’

- Cyngor Gwynedd

Roedd rhai o’r ymatebwyr yn gweld mai estyniad naturiol o bwysigrwydd cymunedau daearyddol fyddai creu Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol.

Roedd eraill hefyd yn gweld datblygiad mathau newydd o gymuned fel cyfle i’r iaith:

‘Er bod y niferoedd yn sylweddol mae’n her i’r iaith ennill ei blwyf o fewn cymunedau corfforol. Sut gall technoleg cynnig datrysiad i’r broblem? Yn ôl adroddiad diweddaraf OFCOM mae dau ymhob tri o Gymry yn meddu ar ffon glyfar. Mae angen archwilio a buddsoddi mewn technoleg ddigidol er mwyn galluogi creu cymuned rithiol ddigidol gall amlygu’r Gymraeg yn y cymunedau hyn a chreu cyfleoedd i bobl datblygu rhwydweithiau cymdeithasol yn ddigidol ac ar lawr gwlad’.

- Awr Cymru

Trosglwyddo

Cafwyd cryn gefnogaeth ymysg yr ymatebion i gynyddu cyfraddau trosglwyddo o fewn teuluoedd, a thrwy hynny, cynyddu defnydd o’r Gymraeg. Rhoddwyd sylw gan rai i deuluoedd gyda mwy nac un iaith a phwysigrwydd sicrhau eu bod yn ymwybodol o fuddion dwyieithrwydd:

‘Bydd angen argyhoeddi rhieni mewn cartrefi cymysgiaith bod popeth i’w ennill a dim i’w gollu o fod y rhiant Cymraeg yn defnyddio’r iaith yn ddieithriad gyda’i ph/blant’.

- Dyfodol i’r iaith

Mynegodd rhai ymatebwyr fod angen ffocws ac ymdrech mwy dwys i’r her o gynyddu cyfraddau trosglwyddo o fewn teuluoedd.

Rhoddwyd sylw gan eraill bod angen edrych ar ddulliau i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg ond sydd â’u plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi a

chymryd rhan mewn addysg eu plant.

'Policies which support non Welsh speaking parents in Welsh medium schools are essential. Many parents feel isolated from their children's school life as there is not enough support for them as non Welsh speakers, and their experiences are what will shape their friends and family in choosing schools later on'.

- Aspiration Training

'Support for non-Welsh speaking parents in terms of 'work / home learning, help their children with reading, etc. are all important. There must be a large investment in the support here and think very creatively about technology in this respect. The words 'see for themselves the importance of Welsh' in the strategy are crucial'.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Newidiadau cymdeithasol

Roedd nifer o'r farn nad oedd y ddogfen ymgynghori'n rhoi digon o sylw i newidiadau cymdeithasol mawr sydd ar droed, a'u heffaith ar y Gymraeg. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys mudo oddi mewn i Gymru (e.e. o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol), nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael Cymru bob blwyddyn, mewnfudwyr i Gymru o weddill gwledydd Prydain, a mewnfudwyr i Gymru o'r tu allan i Brydain. Yn hyn o beth roedd sawl ymatebydd yn awyddus i weld newydd-ddyfodiaid yn cael pob cyfle ac anogaeth i ddysgu'r iaith:

'Nid yw'r ddogfen yn rhoi ystyriaeth briodol i gymhathu mewnfudwyr, ac esbonio diwylliant ac arferion lleol er mwyn annog pobl i ddysgu ac ymuno a'r gymuned, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. .. Dylwn symud i sefyllfa fel bod pob mewnfudwr yn gallu cael mynediad hwylus at addysg Gymraeg, ei fod yn ddiodyn er mwyn i bawb gael y cyfle gorau o gael dod yn ddwyieithog'.

- Cyngor Sir Gâr

Mannau i ddefnyddio'r Gymraeg

Wrth ymdrin â chynyddu defnydd o'r Gymraeg, roedd cefnogaeth i gynnal presenoldeb cyrff a sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Crybwyllodd rhai y dylid ehangu'r ddarpariaeth bresennol o ganolfannau Cymraeg i fwy o gymunedau Cymru. Yn hyn o beth roedd yn amlwg bod awydd gan nifer i weld nifer y manau 'diogel' hyn yn cynyddu, a bod y gweithle'n bau arall hollbwysig yn hynny o beth:

'Mae pobl sydd o oedran gweithio arferol yn treulio treian o'u bywydau yn y gweithle, ac felly mae'r gweithle yn gyfle amhrisiadwy i ddylanwadu ar y gallu i siarad a defnyddio'r Gymraeg.....'

- Menter a Busnes

'Mae angen helpu sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol o fewn eu gweithleoedd ac i feithrin hyder staff sy'n swil o'u sgiliau iaith Gymraeg.'

- Partneriaeth Ogwen

'Mae ein rhwydweithiau cymdeithasol wedi newid, gyda phobl yn byw a gweithio mewn lleoedd gwahanol ac yn cymdeithasu mewn rhwydweithiau gwasgaredig....mae'n dipyn haws i gynllunio bwriadus effeithio ar ddewisiadau iaith siaradwr Cymraeg yn y gweithle nag ydyw i effeithio ar y

dewisiadau iaith sy'n ymhlyg yn fywyd cymdeithasol yr un unigolyn'
- Osian Elias

Fel ag ym mhob maes, amlygwyd dro ar ôl tro bwysigrwydd cyllid ac adnoddau i gefnogi unrhyw gamau yn y maes hwn.

Maes datblygu 5: Seilwaith

Cwestiwn 10: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn rhoi gwell seilwaith i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Cyfanswm	Oes	Nac oes	Ddim yn siŵr
199	96 (48.2%)	54 (27.1%)	49 (24.6%)
Prif themâu'r sylwadau			
<p>Wrth ymateb i'r cwestiwn yma, rhoddwyd sylw mewn nifer o ymatebion i'r angen i sicrhau cyflenwad o adnoddau dwyieithog ar gyfer y sector addysg. Rhoddwyd sylw i'r broses gomisiynu a datblygu ar gyfer adnoddau cyfrwng Cymraeg gan nodi'r angen i roi sylw i amser cyhoeddi'r adnoddau i sicrhau amser digonol i baratoi cymwysterau a chyrsgiau sy'n cyd-fynd â'r adnoddau ac hefyd i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.</p> <p>'Assumption of parity of release for educational resources in both languages' - Cyngor Cymuned Coedffranc</p> <p>Thema arall ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion oedd yr angen i roi sylw i hanfodion iaith. Trafodwyd cwblhau gwaith i safoni'r Gymraeg o ran ei gramadeg a'i geirfa mewn rhai atebion. Cododd y thema yma yng nghyd-destun problemau honedig sy'n codi wrth i bobl gyda thafodieithoedd gwahanol gyfathrebu. Yn ogystal, nododd rai ymatebwyr nad oedd y strategaeth ddrafft yn amlygu pwysigrwydd geiriadura a datblygu terminoleg y Gymraeg yn ddigonol. Crybwyllwyd yn ogystal y dylid sicrhau cyllid parhaol ar gyfer Geiriadur Prifysgol Cymru i ymgymryd â'r gwaith yma.</p> <p>'Cyhyd ag y datblygo'r iaith Gymraeg, bydd angen cofnodi ei datblygiad gan weithwyr cyflog parhaol' - Bruce Griffiths</p> <p>Roedd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad wedi ymdrin â rôl technoleg wrth weithio tuag at gyflawni amcanion y strategaeth ddrafft. Trafodwyd rôl gynyddol technoleg mewn bywydau pobl, a'r angen yn sgil hynny i sicrhau bod y Gymraeg yn bresennol yn y maes. Nododd Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y dylid sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith ar fryder i fynd i'r afael â heriau'r maes yma. Wrth ymdrin â thechnoleg a'r Gymraeg, rhoddwyd sylw'n ogystal i'r economi digidol rhyngwladol a'r manteision posib i Gymru o fod yn wlad ddwyieithog i fanteisio ar yr economi hwnnw a'r buddiannau posib i'r Gymraeg mewn technoleg:</p> <p>'Mae Cymru mewn lle unigryw o fewn y Deyrnas Unedig i gynnig gwasanaethau a datblygu busnesau newydd yn y gofod hwn trwy fod ganddi gweithlu gwir dwy ieithog niferus. Wrth amlygu gweithlu sy'n medru a'r gallu i weithio yn yr iaith Saesneg ac "A N Other language" bydd yr insentif i ddysgu</p>			

a defnyddio'r iaith o ddydd i ddydd yn gynyddol ddeniadol, gyda'r budd ychwanegol o gynnydd sylweddol mewn gwasanaethau a chynnwys digidol fydd ar gael yn y Gymraeg'.

- Awr Cymru

Thema arall a ddaeth i'r amlwg ymysg yr ymatebion oedd pwysigrwydd y cyfryngau i gyrraedd nod y strategaeth ddrafft a'r gydberthynas rhwng hyfywedd cyfryngau mewn iaith benodol a'r iaith ei hun. Fodd bynnag, tynnwyd sylw yn ogystal at y datblygiadau yn y maes hwn o ran sut mae pobl yn ymwneud â'r cyfryngau.

Maes datblygu 6: Hawliau

Cwestiwn 11: A oes amcanion neu gamau nad ydym wedi eu nodi yn y ddogfen hon y dylid eu cynnwys er mwyn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg?

Cyfanswm	Oes	Nac oes	Ddim yn siŵr
207	70 (33.8%)	93 (44.9%)	44 (21.3%)

Prif themâu'r sylwadau

Daeth yn amlwg o ddarllen yr ymatebion, yn arbennig yr ymatebion a gyflwynwyd drwy gyfrwng y Saesneg, nad pawb oedd yn gwbl gefnogol i'r syniad o 'wella hawliau' mewn perthynas â'r Gymraeg. Canfyddiad ymysg yr ymatebion hyn oedd bod unrhyw gam i gryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg yn gam awtomatig yn erbyn hawliau siaradwyr Saesneg, a bod y syniad o 'hawl' ynddo'i hun yn rhy gryf. Gwell oedd gan rai y syniad o 'ryddid i ddefnyddio'r Gymraeg':

'The Welsh Language (Wales) Measure does not reference rights, more the 'freedom to use'. If we realise the normalisation of the Welsh language, rights will follow suit'.

- Colegau Cymru

Mewn sawl achos roedd siaradwyr Cymraeg hefyd o'r farn bod y sylfaen deddfwriaethol yn ei lle a bod angen gweithredu nawr i sicrhau bod pobl yn manteisio ar hynny ac yn defnyddio'r Gymraeg.

'Mae gan y Gymraeg statws swyddogol, mae deddfwriaeth ar waith sy'n rhoi'r hawl i siaradwyr Cymraeg gael gwasanaethau Cymraeg, mae gennym Gomisiynydd y Gymraeg i oruchwylio'r broses o weithredu'r hawliau hyn. Mae sail statudol hefyd dros gynllunio'r ddarpariaeth addysg Gymraeg, ac mae "iaith Gymraeg ffyniannus" wedi'i gynnwys fel un o'r nodau llesiant cenedlaethol. Nawr, mae angen i ni adeiladu ar y sylfeini hyn'.

- Cymwysterau Cymru

Fodd bynnag, nid oedd y farn hon yn un unfrydol, gyda nifer yn nodi'r angen i gryfhau ac ehangu cwrdd y mesur a'r dyletswyddau mewn rhai sectorau hanfodol.

(i) Sefydlu hawliau cyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod cyrff yn gwella yn barhaus o ran darparu gwasanaethau, llenwi'r manau gwan anochel a ddaw yn sgil y Safonau, a sicrhau bod hawliau pobl i'r Gymraeg yn ddealladwy

(ii) Ymestyn y Mesur i weddill y sector breifat er mwyn normaleiddio a chryfhau defnydd y Gymraeg ym mhob rhan o fywyd

* gan enwi ar wyneb y Mesur fanciau, archfarchnadoedd, mânwerthwyr a chwmnïau sydd â throsiant uwch na ffigwr benodol fel blaenoriaethau tymor byr

* sefydlu grym a dyletswydd ar wyneb y Mesur i ychwanegu holl gyrff y sector breifat fel categorïau o berson y gellid eu hychwanegu at Atodlen 8 y ddeddfwriaeth

- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Yn y cyd-destun hwn, trafododd rai ymatebwyr agweddau positif cyfundrefn Safonau'r Gymraeg, tra bod eraill wedi rhoi sylw i agweddau negyddol y gyfundrefn. Bu nifer o sylwadau'n trafod prosesau'r gyfundrefn ei hun, ynghyd â diffygion y gyfundrefn o ran darparu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhai sectorau hanfodol, megis bancio.

'Mae safonau'r Gymraeg, er i'w canmol mewn rhai achosion yn rhy gul ac yn cymryd llawer rhy hir i'w mabwysiadu – rhaid eu cryfhau mewn meysydd bob dydd megis banciau, canolfannau hamdden ac ati'.

- Tudur Williams

Nodwyd hefyd yr angen i gyflymu a symleiddio'r broses o gyflwyno safonau newydd:

'The process for implementing the Welsh Language (Wales) Measure seems to have become somewhat cumbersome, resulting in a delay to its roll-out If anything can be done to make this process simpler, it would be welcomed'.

- Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant
Adeiladu

Mater arall a oedd yn destun trafod yn hyn o beth oedd y cydbwysedd rhwng rheoleiddio a hyrwyddo, gyda nifer o ymatebwyr yn teimlo bod y gyfundrefn safonau'n negyddol ei natur:

'Rheoleiddio ar gyfer llwyddiant nid er mwyn disgrifio methiant'.

- Rhian Huws Williams

Diddorol oedd gweld, felly, mewn rhai o'r ymatebion a gyrhaeddodd y Llywodraeth yn agos at y dyddiad cau, ymateb cadarnhaol i'r cyhoeddiad bod cyllid wedi ei neilltuo i sefydlu 'Asiantaeth' i hyrwyddo'r Gymraeg (cyhoeddwyd y cyllid hwn ar 18 Hydref).

Soniodd ambell i ymatebydd hefyd am bwysigrwydd manteisio i'r eithaf ar bob darn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ac o sicrhau nad oedd y strategaeth derfynol yn hepgor yr elfennau pwysig hyn. Er enghraifft:

'Fe fyddwn yn croesawu mwy o sylw hefyd i bwysigrwydd sicrhau statws uchel i'r iaith drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.

- Mentrau Iaith Cymru

Blaenoriaethau

Cwestiwn 12: Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfres o bolisiau manwl mewn meysydd penodol dros gyfnod y strategaeth hon. Pa bolisiau ydych chi'n meddwl y dylem eu blaenoriaethu i'w cyhoeddi dros bum mlynedd cyntaf y strategaeth?

Prif themâu'r sylwadau

O bell ffordd, roedd y nifer fwyaf o ymatebion i'r cwestiwn yma yn blaenoriaethu datblygu maes addysg fel y flaenoriaeth o ran gweithredu amcanion y strategaeth ddrafft. Dros ystod yr ymatebion oedd yn blaenoriaethu addysg, cafwyd cyfeiriadau at yr angen i ddatblygu'r sector addysg drwyddi draw, o'r blynyddoedd cynnar, y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, hyd at addysg bellach ac addysg uwch ynghyd â dysgu gydol oes a'r ddarpariaeth drochi. Cafwyd cydnabyddiaeth yn ogystal o'r angen i ddatblygu'r ddarpariaeth bresennol ym maes addysg galwedigaethol, ynghyd â'r angen i ddatblygu'r ddarpariaeth o brentisiaethau cyfrwng Gymraeg.

'The Association would suggest that education and learning opportunities is a key area along with normalisation of the Welsh language'.

- Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymru

Yn ogystal, bu llawer o'r ymatebion yn cytuno gyda phwyslais y strategaeth ddrafft ar ddatblygu gweithlu'r sector addysg i gynyddu'r nifer o athrawon gyda sgiliau Gymraeg trwy hyfforddi mwy o athrawon Gymraeg eu hiaith, ac adeiladu ar sgiliau'r gweithlu presennol. Bu llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad o'r sector addysg yn benodol yn cytuno gyda hyn. Yn y modd yma, cafwyd yr argymhelliad canlynol gan Golegau Cymru:

'Make the changes to ITE, PGCE course content and introduce Welsh language as a compulsory part of the course'

Blaenoriaethwyd comisiynu a datblygu adnoddau addysg cyfrwng Gymraeg gan rai ymatebwyr i gefnogi isadeiledd addysg Gymraeg yn bellach.

Tu hwnt i ystyriaethau am isadeiledd a darpariaeth addysg, trafodwyd y cwricwlwm gan sawl ymatebydd yng nghyd-destun dysgu Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a phwysigrwydd creu continwmm ieithyddol. Yn ogystal, nodwyd yr angen i gefnogi teuluoedd trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i rieni, a thrwy gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Gymraeg ond yn dysgu ac/neu bod ganddynt blant mewn addysg cyfrwng Gymraeg.

Honnwyd gan ambell ymatebydd y dylid symud tuag at ysgolion Gymraeg yn unig, yn hytrach nac ysgolion dwyieithog. Yn ogystal, nododd ambell ymatebwyr y dylid edrych ar ddilyniant ieithyddol gan ymchwilio i'r rhesymau tu ôl i bobl yn gadael y ffrwd Gymraeg.

Blaenoriaethwyd defnydd o'r Gymraeg gan nifer o ymatebwyr. Trafodwyd defnydd yn nhermau cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, yn y cartref, mewn teuluoedd, rhwng pobl ifanc a disgyblion mewn ysgolion, yn y gwaith ac o fewn cyrff cyhoeddus.

'Polisi defnydd iaith sy'n annog siaradwyr i ymfalchïo yn eu gallu i siarad Cymraeg boed yn ddysgwyr neu'n siaradwyr rhugl. Sicrhau bod lles y Gymraeg a manteision dysgu a defnyddio'r iaith wrth wraidd unrhyw bolisiâu sy'n ymwneud â'r economi a phrif fusnes y Cynulliad'.

- Canolfan Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Rhodddwyd cryn sylw gan rai ymatebwyr i'r angen i ddatblygu rôl y Gymraeg mewn technoleg fel blaenoriaeth ar draws trawstoriad eang o'r grwpiau ymatebodd i'r ymgynghoriad. Trafodwyd analluoedd presennol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn rhai sfferau technolegol, a'r angen ar gyfer gwaith yn y maes yma. Yn ogystal, cyfeiriwyd at yr angen i:

'gynyddu gwelededd y Gymraeg ar declynnau technolegol'.

- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi
Sant

Nododd gryn dipyn o ymatebwyr y maes dysgu Cymraeg fel eu blaenoriaeth gan gynnwys sylwadau ar y ddarpariaeth a'r angen i farchnata'r ddarpariaeth honno. Rhodddwyd sylw yn ogystal gan nifer o ymatebwyr i'r angen i ffocysu ar ddysgu Cymraeg yn y gweithle ac yn fwy cyffredinol, i ddatblygu gweithleoedd o ran y Gymraeg. Trafododd ymatebwyr yr angen i sicrhau bod cynllunio gweithlu yn digwydd o fewn gweithleoedd yn ogystal ag ymwybyddiaeth iaith. Ar yr un pryd, soniwyd gan rai ymatebwyr am ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

'Mae angen rhoi bri ar y Gymraeg fel sgil sy'n bwydo mewn i'r economi, ac mae'n rhaid cyflwyno cynlluniau sy'n galluogi gweithleoedd i adnabod anghenion datblygu sgiliau ieithyddol yn y gweithle, gan ddarparu'r anogaeth a'r gefnogaeth i'w staff ddysgu neu ddatblygu eu sgiliau iaith. Mae'n bwysig bod y maes dysgu Cymraeg yn cael cefnogaeth lawn i gefnogi'r agenda hon, a chredwn bod angen i 'Gymraeg yn y gweithle' fod yn gonglfaen i'w darpariaeth yn y dyfodol'.

- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Yng nghyd-destun deddfwriaeth, cafwyd rhai ymatebwyr yn blaenoriaethu hyrwyddo'r hawliau presennol sydd gan bobl i'r Gymraeg, tra roedd eraill yn credu y dylid blaenoriaethu cryfhau'r hawliau sydd ar gael i bobl. Cafwyd cyfeiriadau yn ogystal at y nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a phwysigrwyd gweithredu'r ddeddf honno fel blaenoriaeth.

Blaenoriaethwyd polisiâu cynllunio gan rai ymatebwyr gyda chyfeiriadau at Nodyn Cyngor Technegol 20². Yn yr un modd, cafwyd cyfeiriadau at Wylfa Newydd ac effaith y prosiect ar y Gymraeg, a'r angen i ystyried y Gymraeg fel rhan o ddatblygu economaidd. Cofnododd eraill bod angen blaenoriaethu datblygu economaidd i weithredu'r strategaeth ac amddiffyn cadarnleoedd traddodiadol y Gymraeg.

Mewn ymatebion i'r cwestiwn, blaenoriaethodd rai normaleiddio'r Gymraeg a chynnal ymgyrch farchnata i hybu'r Gymraeg a throsglwyddiad iaith o fewn

² <http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy>

teuluoedd. Yn ogystal, cofnodwyd rhai ymatebion ble roedd datblygu gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg, a'r ddarpariaeth o ofal plant trwy'r Gymraeg yn flaenoriaeth.

Sylwadau eraill

Cwestiwn 13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Prif themâu'r sylwadau

Ymhlith yr ymatebion i'r cwestiwn yma, y testun a nodwyd fwyaf gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd y gost/buddsoddiad fyddai ynghlwm â gweithredu'r strategaeth ddrafft fel y'i drafftiwyd. Bu ambell ymateb yn nodi nad oedd y strategaeth ddrafft wedi nodi cost gweithredu'r strategaeth, tra bo eraill yn nodi y byddai angen buddsoddiad a sicrhau cyllid digonol er mwyn gwireddu'r amcanion a chyrraedd y targed. Nododd 3 o'r Awdurdodau Lleol ymatebodd i'r ymgynghoriad y byddai angen cyllido gweithredu'r strategaeth. Nododd ymatebydd dienw:

'I wireddu miliwn o siaradwyr erbyn 2050, mae'n rhaid darparu buddsoddiad ac adnoddau i'r iaith, ar lefel leol a chenedlaethol'.

Un o brif themâu eraill yr ymatebion oedd yr angen i gymryd ystyriaeth o broffil ardaloedd gwahanol Cymru. Ynghyd â hyn, nododd sawl ymatebydd bod angen gwaith penodol mewn ardaloedd daearyddol penodol gan ystyried sefyllfa ddemograffig unigryw rhai ardaloedd. Tra bod rhai ymatebwyr wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg, nid oedd yr ymatebion yn unfrydol. Nododd Menter Iaith Maelor:

'Os nad oes digon o sylw i'r ardaloedd dwyreiniol hyn bydd y Gymraeg yn colli tir gyda'r dirywiad yn symud tuag at yr ardaloedd cryfach gan fwyta mewn iddynt yn y pen draw'.

Ymysg prif themâu'r ymatebion i'r cwestiwn yma, trafododd sawl un yr angen i roi sylw digonol i ddefnydd pobl o'r Gymraeg yn y strategaeth derfynol, o gymharu â siaradwyr Cymraeg. Trafodwyd cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr, myfyrwyr, ac yn gymdeithasol ar draws diwylliant a bywyd. Honnwyd mewn un ymateb y dylid cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan y byddai hyn yn cynyddu ffigyrau dilyniant ieithyddol a thrwy hynny, gyfrannu tuag at y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Yn ogystal â'r uchod, rhoddwyd sylw i'r maes dysgu Cymraeg. Nododd sawl ymateb bod angen cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i'r bobl sy'n mynd ati i ddysgu Cymraeg. Ymysg yr ymatebion, crybwyllwyd ddwywaith y dylid addysgu siaradwyr Cymraeg rhugl ynghylch y ffordd orau i gynorthwyo dysgwyr. Yn ogystal, soniwyd am yr angen i ehangu'r ddarpariaeth i bobl ddysgu Cymraeg mewn gweithleoedd. Ar drywydd gwahanol, nododd un ymateb y dylid ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r di-Gymraeg yn penderfynu peidio dysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Thema arall ysgogodd gryn ymateb yn y cwestiwn yma oedd addysg. Cafwyd

ymatebion yn delio â'r cwricwlwm ynghyd â'r angen i ehangu'r ddarpariaeth bresennol o addysg Gymraeg ar draws y system.

Tu hwnt i'r uchod, trafodwyd gwerth y Gymraeg fel sgil mewn nifer o ymatebion a'r disgwrs sy'n amgylchynu'r Gymraeg. Nododd un ymateb [Survey Monkey]:

'Mae angen symud i ffwrdd o'r ddelwedd o'r Gymraeg fel iaith yr ysgol a'r capeli ac amlygu ei bod yn iaith gymunedol, fodern, gyda gwerth economaidd a phŵer go iawn'.

Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb sydd wedi treulio amser yn ymateb i'r ymgynghoriad yma ac i gynorthwyo'r llywodraeth i lywio'r daith at filiwn o siaradwyr. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn ddwys wrth ddrafftio'r strategaeth derfynol. Roedd nifer o'r ymatebion yn cynnig sylwadau manwl ac argymhellion ymarferol ar gyfer gweithredu o blaid y Gymraeg fydd yn ddefnyddiol wrth i ni roi'r strategaeth ar waith maes o law, ac wrth inni ddatblygu polisïau a chynlluniau i gefnogi'r strategaeth.

Atodiad 1: Rhestr o'r ymatebwyr

1: Ymatebion ar dempled swyddogol yr ymgynghoriad

Cyrff ac unigolion y sector addysg a gofal plant

Alun Davies – Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Andrea Folland – CITB Cymru
Angharad Starr – Mudiad Meithrin
Christine James – Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Claire Protheroe – PACEY Cymru
Claire Roberts – ColegauCymru
Clare Grist – WEA YMCA CC Cymru
Coleg Gymraeg Cenedlaethol
David Hytch – Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Maes Garmon
Estyn
Grŵp Llandrillo Menai
Gwilym Dyfri Jones – Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Huw Lewis, Elin Royles a Catrin Edwards – Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas
Cymru, Prifysgol Aberystwyth
Hywel White – City & Guilds
Iwan Davies – Prifysgol Abertawe
J Kemp – Ysgol Uwchradd Fitzalan
Jane Alexander – Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru
Jeff Williams-Jones – Nant Gwrtheyn
John Graystone – Agored Cymru
Lisa Lloyd – Aspiration Training
Lisa McDougall – Cymwysterau Cymru
Llywodraethwyr Cymru
NASUWT Cymru, Undeb yr Athrawon
Prifysgol De Cymru
Rebecca Williams – UCAC
Rob Williams – NAHT Cymru
Ryan Evans – Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Sandra Welsby – NDNA Cymru

Cyrff y sector iechyd a gofal

Cafwyd 2 o ymatebion dienw
Claire Fauve – Tîm Iechyd Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Tîm yr Iaith Gymraeg – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Sarah McCarty – Cyngor Gofal Cymru

Mudiadau'r Gymraeg

Dathlu'r Gymraeg
Efa Gruffydd Jones – Y Ganolfan Dysgu Gymraeg Genedlaethol
Elin Maher – Menter Iaith Casnewydd
Gill Stephen – Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor
Glenys Craig – Cymdeithas Gymraeg Woking
Ioan Talfryn – Popeth Gymraeg
Lynsey Thomas – Menter Iaith Ceredigion
Marilyn Davies – Y Glannau
Meirion Davies – Menter Iaith Conwy
Mike Farnworth – *Liverpool Welsh Language Group*

Owain Gruffydd – Menter Bro Dinefwr
Ruth Williams – Menter Iaith Ddinbych

Llywodraeth Leol

Cafwyd 2 o ymatebion dienw
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyngor Dinas Caerdydd
Delyth Wynne Jones – Adran Addysg Conwy
Diane Evans - Adran Addysg Conwy
Einir Wyn – Cyngor Cymuned Llanengan
Ellen Ap Gwynn – Cyngor Sir Ceredigion
Fiona Mocko – Cyngor Sir y Fflint
Huw Isaac – Cyngor Bro Morgannwg
Huw Owen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Llio Elgar – Cyngor Dinas Casnewydd
Mair Stephens – Cyngor Sir Gâr
Nan Jones – Adran Addysg Conwy
Sian Vaughan – Adran Addysg Conwy

Eraill

Cafwyd 6 o ymatebion dienw
Alun Jones – Menter a Busnes
Andrew Hawke
Ann Keane
Bruce Griffiths
Charles Dillon – *Dictionary of the Irish Language, Royal Irish Academy*
Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint
Geoffrey Osborne-Taylor
Gethin Rhys – Cytûn Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Gwyn Hopkins
Jeremy Randles
Keith Ingram
Kenneth Jones
Lorna Pike – Faclair na Gáidhlig
Phillip Evans
Rhian Huws Williams
RTPI Cymru
Tudur Williams

2: Ymatebwyr dros Survey Monkey

Cafwyd 87 o ymatebion dienw
Alwyn Lloyd
Andrea Lee
Anthony Cusack
Anthony Pritchard
Bethan Price – Menter Brycheiniog a Maesyfed
Buddug A Hughes
Catrin Jones
Catrin Roberts – Ysgol Dyffryn
Chris Waite
Dafydd Eveleigh

David Stanley Williams
Dawn Lloyd
Edward Thomas
Elan
Emma Sandrey
Frank Bradfield – Cynghorydd Sir a Llywodraethwr Ysgol y Gogarth
Jack Nighte
Jacques Potic – Glasnost.Org.UK
James Sibley
Jane Morgan
Jason Burton
Jen Llywelyn
Joel Carre
John Howard Jones
John Les Thomas
Katherine Dulson
Kenneth Vernon Williams
Lucina
Martin Davis
Michaela Beddows
Naomi Price
Owen McArdle
Paul Kindred
Philip Barker
Pol Wong
Rhys Ap Dafydd
R W Ebley
Sally Spillane
Samuel Dunt
Sarah Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Shan Morgaine
Simon R. P. Treloar
Sion Jobbins
Sue Stanford
Susan Berry
Tegwen Morris – Merched y Wawr
Thomas Hopkins-Rees
Thomas Shaw
Victoria Byrne – Ysgol Bryn Alyn
Vynor Hill

3: Ymatebion llawrydd

Antur Waunfawr
Awr Cymru
Brian Clark
Brian Williams
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Chris Brown
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg
Cynghorydd Derek Cundy – Cyngor Sir Gâr
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Cymuned Coedffranc
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Tref Porthmadog
Cyngor y Gweithlu Addysg
Cynllunwyr Iaith Cymru
Dyfodol i'r iaith
Geiriadur Prifysgol Cymru
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru
Gwyneth Price
Huw Alun Roberts
Huw Davies
Huw Onllwyn Jones
Huw Roberts
Jay Watts
Jess Rees
LinguaNi
Marie-Clare Hunter
Menter Bro Ogwr
Menter Caerffili
Mentrau Iaith Cymru
National Trust
Nesta Davies
Neville Morris Pughe
Osian Harri Elias
Partneriaeth Ogwen Cyf.
Peter Christopher
Prifysgol Bangor
Rhieni dros Addysg Gyfareg
Rob Evans
Terry Owen
TJ Williams
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
Urdd Gobaith Cymru

Atodiad 2: Sefydliadau a dderbyniodd wahoddiad uniongyrchol i gynhadledd #Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr

- Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Comisiynydd y Gymraeg
- Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol
- Cyfarwyddwyr gyda chyfrifoldeb dros addysg yr Awdurdodau Lleol
- Cyngor Llyfrau Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol
- Urdd
- Eisteddfod Genedlaethol
- Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Cymdeithas Ffermwyr Ifanc Cymru
- Merched y Wawr
- Mudiad Meithrin
- Undeb Rygbi Cymru
- FA Wales
- Dŵr Cymru
- Nwy Prydain
- BT Cymru
- CBI
- FSB
- Swyddle
- Barclays
- TSB Bank
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- S4C
- BBC Cymru
- ITV Cymru
- Golwg 360
- Llenyddiaeth Cymru
- Colegau Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Abertawe
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
- Dyfodol i'r Iaith
- Rhieni dros Addysg Gymraeg

Atodiad 3: Crynodeb o ymatebion holiadur doopoll cynhadledd #Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr

Am fwy o wybodaeth ar y dull ymateb hwn, gweler tudalen 5 yr adroddiad.


Cwestiwn 1: Miliwn o siaradwyr erbyn 2050 - ydy'n bosibl cyrraedd y nod?

Gofynnwyd i ymatebwyr benderfynu ar y cwestiwn yma trwy osod eu hateb ar raddfa. Ar naill ochr y raddfa roedd 'Nac ydy', ar y llall, roedd 'Ydy'. Cafwyd 607 o ymatebion i'r pŵl. Mae'r graff isod yn dangos cyfartaledd yr atebion a gafwyd.



Cwestiwn 2: Petai'n rhaid gwneud un peth yn gyntaf ar y daith i gyrraedd miliwn o siaradwyr, beth ddylai hynny fod?

Gosodwyd y cwestiwn yma ar ffurf atebion aml-ddewis. Nid oedd cyfle i ymatebwyr ychwanegu atebion na'u rhesymeg dros ateb mewn ffordd benodol. Fodd bynnag, roedd modd dewis 'Rhywbeth arall' fel ateb. Ymatebodd 592 i'r cwestiwn yma. Mae'r graff isod yn dangos y canlyniadau.



Cwestiwn 3: Pa mor bwysig yw'r canlynol wrth gefnogi'r Gymraeg?


Gofynnwyd i ymatebwyr y pŵl i osod rheoleiddio ac hyrwyddo ar raddfa, gyda 'Ddim yn bwysig' ar y naill ochr, a 'Pwysig iawn' ar y llall. Cafwyd 590 o ymatebion i'r cwestiwn ac mae'r graff isod yn dangos canlyniad cyfartaledd ymysg y rhai atebodd y cwestiwn.



Cwestiwn 4: Ydy'r meysydd datblygu sy'n cael eu crybwyll yn y strategaeth ddrafft yn canolbwyntio ar y themâu cywir?


Yn y cwestiwn yma, rhoddwyd y chwe maes datblygu sydd wedi eu cynnwys yn y strategaeth ddrafft i'r ymatebwyr. Yna, gofynnwyd i ymatebwyr nodi eu hateb ar raddfa ar

gyfer pob un o'r meysydd datblygu yn unigol gydag 'Ydy' ar naill ochr y raddfa, a 'Nac ydy' ar y llall. Mae'r graff isod yn dangos cyfartaledd atebion y 535 o ymatebwyr.



Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno bod angen perswadio holl bobl Cymru eu bod eisoes ar 'daith ddwyieithrwydd'?

Gosodwyd y cwestiwn yma ar ffurf atebion aml-ddewis. Nid oedd cyfle i ymatebwyr ychwanegu atebion na'u rhesymeg dros ateb mewn ffordd benodol. Fodd bynnag, roedd modd dewis 'Rhywbeth arall' fel ateb. Ymatebodd 532 i'r cwestiwn yma. Mae'r graff isod yn dangos canlyniadau'r pŵl ar gyfartaledd.



Atodiad 4: Trosolwg o ymatebion grwpiau ffocws cylchoedd Ti a Fi

Am fwy o wybodaeth ar y dull ymateb hwn, gweler tudalen 6 yr adroddiad.

Cwestiwn 1: Pa mor bwysig yw'r iaith a chymreictod i chi?

Roedd y rhan helaeth o gyfrannwyr i'r sesiynau yn meddwl bod y Gymraeg a chymreictod unai yn bwysig iawn, neu'n eithaf pwysig. Nododd un cyfrannwr ei fod yn gweld yr iaith yn llai pwysig nag yr oedd wedi un tro a chofnodwyd ansicrwydd gan gyfrannwr arall.

Nododd un cyfrannwr y gall y Gymraeg agor drysau i'w plentyn, a chofnodwyd bod dau gyfrannwr yn credu bod diwylliant yn bwysig.

Cwestiwn 2: Beth ydych chi'n ei feddwl o weledigaeth y llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Cytunodd y mwyafrif gyda gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn y strategaeth ddrafft o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, cofrestrwyd amheuon ymhlith rhai o gyfrannwyr y sesiynau ynghylch ymarferoldeb y targed. Yn ogystal, nododd un cyfrannwr bod ysgogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a dewis addysg Gymraeg yn gallu peri problem. Ategodd un cyfrannwr bod diffyg hyder gan bobl i siarad Cymraeg.

Cwestiwn 3: Pa mor hyderus ydych chi i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol?

Cafwyd ymateb cymysg i'r cwestiwn yma gyda rhai yn nodi eu bod yn hyderus tra bod eraill wedi nodi nad oedd hyder ganddynt i siarad Cymraeg. Yn ogystal, nododd rai eu bod yn hyderus yn dibynnu ar y person yr oeddynt yn siarad gyda nhw a'r sefyllfa.

Cofnodwyd bod rhai ymatebwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn grwpiau Cymraeg. Nododd un cyfrannwr nad oedd digon o grwpiau o'r fath.

Cwestiwn 4: Oes digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith?

Wrth gymharu'r atebion a gafwyd i'r cwestiwn yma gan gyfrannwyr, cafwyd gwahaniaeth yn yr atebion rhwng trigolion ardaloedd gyda chanran uchel o siaradwyr (Seiont a Pheblig, a Hermon) o'u cymharu gydag ardaloedd gyda chanran is (Caerdydd a Llanelwy). Ymhlith y rhai atebodd y cwestiwn, bu bron i bawb o Seiont a Pheblig a Hermon nodi bod digon o gyfleoedd i siarad Cymraeg. I'r gwrthwyneb, yn sesiynau Cyncoed a Llanelwy, nodwyd bod diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn bywyd bob dydd y tu allan i grwpiau hamdden sydd wedi eu trefnu trwy'r Gymraeg.

Nododd rai bod angen mwy o wersi i ddysgu Cymraeg i rieni a bod angen mwy o weithgareddau i blant bach trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd un cyfrannwr bod angen hyrwyddo'r Gymraeg ymysg sefydliadau mawr.

Cwestiwn 5: Sut ydym ni'n gallu gwneud y Gymraeg yn rhan fwy naturiol o

fywyd bob dydd?

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod angen cynyddu defnydd pobl o'r Gymraeg ac annog mwy o bobl i ddefnyddio'r iaith, yn enwedig y tu allan i'r ysgol.

Nododd rai bod angen cynyddu defnydd pobl o'r iaith trwy annog pobl i ddechrau sgysiau yn Gymraeg. Yn yr un modd, cofnodwyd cefnogaeth gan rai ymatebwyr i ddefnyddio bathodynau fel bod modd adnabod siaradwyr Cymraeg mewn busnesau a gwasanaethau cyhoeddus.

Gofynnodd un cyfrannwr os oedd angen gwneud yr iaith yn rhan fwy naturiol o fywyd bob dydd.

Cwestiwn 6: Sut mae annog rhagor o bobl i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant?

Cofnodwyd bod sawl cyfrannwr wedi nodi pwysigrwydd i rieni dderbyn gwybodaeth am ddwyieithrwydd ymysg plant. Crybwyllodd un cyfrannwr y byddai'n ddymunol gweld mwy o wybodaeth am hyn drwy ysbytai a gwasanaethau mamolaeth. Nododd rai bod sesiynau chwarae ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bwysig yn yr ystyr yma, a bod angen sicrhau croeso i bawb, ta waeth pa iaith y maent yn ei siarad.

Cwestiwn 7: Sut ydych chi'n meddwl y dylwn ni dyfu addysg Gymraeg?

Ymhlith prif themâu'r ymatebion, nododd sawl cyfrannwr bod angen ehangu'r ddarpariaeth bresennol cyfrwng Cymraeg mewn meithrinfeydd ac ysgolion. Crybwyllodd un cyfrannwr y dylai'r Gymraeg fod yn bresennol ym mhob ysgol yn hytrach na ffrydiau ar wahân. Yn ogystal, roedd cefnogaeth i ddileu Cymraeg ail-iaith, ac i ddysgu mwy o Gymraeg mewn ysgolion.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno gyda'n nod o gynyddu'r nifer o lefydd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion?

Bu ymateb cyfranwyr y sesiynau bron yn unfrydol wrth ateb y cwestiwn yma. Namyn un cyfrannwr, cytunodd bawb gyda phwysigrwydd ehangu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg i ateb y galw.

Wrth drafod addysg uwch, nododd un rhiant bod llai o ddewis i astudio yn Gymraeg ar hyn o bryd a chofnodwyd i gyfrannwr arall nodi bod angen datblygu gwrslyfrau cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 9: Sut mae sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol i bobl ei siarad yn y gweithle, gyda ffrindiau ac yn y gymuned?

Nododd ambell gyfrannwr nad oedd modd gwireddu hyn a nododd un cyfrannwr bryderon ynghylch y gost all fod ynghlwm â hyn. Fodd bynnag, cyfrannodd y rhan helaeth o unigolion eu syniadau ynghylch sicrhau'r Gymraeg fel yr iaith naturiol. Ymhlith y syniadau roedd:

- codi hyder pobl i siarad Cymraeg
- codi proffil y Gymraeg yn gyhoeddus a sicrhau bod yr iaith yn weledol
- sicrhau defnydd o'r Gymraeg
- dylai cyflogwyr annog y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg i wneud hynny.

Cwestiwn 10: Sut ydych chi'n teimlo am rôl y Gymraeg mewn technoleg a'r cyfryngau?

Ymhlith ymatebion y cyfranwyr, cofnodwyd bod angen adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol o ddeunydd Cymraeg yn y cyfryngau. Yn ogystal, cofnodwyd bod nifer o'r cyfranwyr wedi nodi nad oes digon o Gymraeg mewn technoleg ac y dylid ehangu'r arlwy presennol o appiau Cymraeg a gemau digidol.

Nododd rai ymatebwyr unai nad oedd hyder ganddynt neu'n syml nad oeddynt yn dewis defnyddio Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cwestiwn 11: Unrhyw sylwadau eraill?

Nododd un ymatebwr bod yna ymdeimlad o fod yn ffodus i fyw mewn ardal Gymreig gan fod defnyddio'r Gymraeg mewn ardaloedd trefol yn gallu peri problemau. Yn ogystal, nododd un cyfrannwr ei fod yn haws trafod gyda doctoriaid yn Gymraeg.